

Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2022

*Gwelsom ei seren  
ef ar ei chyfodiad*

We Saw His Star in the East  
Week of Prayer for Christian Unity 2022

18-25 Ionawr

[www.ctbi.org.uk/weekofprayer](http://www.ctbi.org.uk/weekofprayer)





Mae stori'r Doethion yn ymweld â'r Teulu Sanctaidd ym Methlehem yn un gyfarwydd iawn i ni. Yn wir, ond yn ddiweddar y bu i ni ddatlu'r Nadolig – Gŵyl yr Ymgawdoliad a Datguddio Iesu i'r byd. Mae'r Doethion weithiau wedi cael eu gweld fel symbol o'r byd yn ei amrywiaeth – gwahanol grefyddau a diwylliannau – yn dod i addoli'r baban Iesu. Gallai'r stori felly gynrychioli undod popeth a grëwyd, yr undod mae Duw'n ei ddymuno. Mae'r Doethion yn teithio o wledydd pell, ac yn cynrychioli diwylliannau amrywiol, ac eto maent oll yn teimlo'r un awydd angerddol i weld ac adnabod y brenin newydd-anedig ac yn dod ynghyd i'r cartref bach ym Methlehem mewn gweithred syml o addoliad. Yn hyn gallwn weld delwedd o undod Cristnogol, hynny yw, o wahanol bobloedd Cristnogol sy'n dod ynghyd i gyd-ddarganfod Crist, i'w adnabod ac i'w addoli, gan dystio i'r angen ehangach am undod ac am oresgyn anghyfiawnder.

Ac mae'r testun hwn wedi'i ddewis gan eglwysi'r Dwyrain Canol, rhan o'r byd y bu ei hanes a'i phrofiad hyd heddiw yn llawn gwrthdaro, anghydfod a thrais, a thywyllwch anghyfiawnder a gormes. Ers y Nakba Palesteinaidd (ymadawiad poblogaeth Arabaidd Palesteina yn ystod rhyfel 1948), gwelodd y rhanbarth gyfres o ryfeloedd a chwyldroadau gwaedlyd a thwf eithafiaeth Islamaidd.



The story of the Magi visiting the Holy Family in Bethlehem is one very familiar to us. Indeed, we have recently celebrated Christmas; the Feast of Incarnation and Epiphany. The Magi have sometimes been seen as a symbol of the world's diversity – different religions and cultures – that comes to pay homage to the Christ-child. The story might therefore represent the unity of all created that God desires. The Magi travel from far-off countries, and represent diverse cultures, yet they are driven by the same hunger to see and know the new-born king and are gathered into the little house in Bethlehem in the simple act of giving homage. In this we can find a metaphor for Christian unity: that is, of different Christian peoples drawn together in their common search to recognise Christ, to know him and to worship him and witnessing to wider need for unity and to overcome injustice.

This text has been chosen by the churches of the Middle East, the history of which was, and still is, characterized by conflict and strife, tainted with blood and darkened by injustice and oppression. Since the Palestinian Nakba (the exodus of Palestine's Arab population during the 1948 war) the region has seen a series of bloody wars and revolutions and the rise of Islamic extremism.

---

Mae stori'r Doethion hefyd yn cynnwys llawer o elfennau tywyll, yn fwyaf arbennig gorchmynion gorthrymus Herod i ladd yr holl fechgyn yng nghyffiniau Bethlehem a oedd yn ddwyflwydd oed neu iau (Mathew 2:16-18). Mae creulondeb y naratifau hyn yn adleisio hanes cythryblus a phresennol terfysglyd y Dwyrain Canol.

Yn y Dwyrain Canol y gwreiddiodd Gair Duw a dwyn ffrwyth: hyd ddeg ar hugain a hyd drigain a hyd ganwaith cymaint. Ac o'r Dwyrain hwnnw yr aeth yr apostolion allan i bregethu'r Efengyl hyd eithaf y ddaear (Actau 1: 8). Rhoes y Dwyrain Canol i'r byd filoedd o dystion Cristnogol a miloedd o ferthyron Cristnogol. Ac eto heddiw, mae bodolaeth y gymuned Gristnogol fach yn y fantol gan fod llawer yn teimlo'r rheidrydd i chwilio am fywyd mwy diogel a llewyrchus mewn rhannau eraill o'r byd. Fel y goleuni a lewyrchai drwy'r baban Iesu mae goleuni Cristnogaeth y Dwyrain Canol yn dod fwyfwy dan fygythiad yn y dyddiau anodd hyn.

Mae Jerwsalem yn symbol pwerus i Gristnogion oherwydd mai hithau yw dinas tangnefedd lle achubwyd y ddynoliaeth gyfan ac y cynigiwyd iddi ddechrau newydd. Ond heddiw mae heddwch ar goll o'r ddinas. Mae hyd yn oed gweddïo yn Jerwsalem wedi dod dan gyfyngiadau gwleidyddol a milwrol. Mae gwahanol garfannau'n hawlio'r ddinas ac yn diystyru eraill. Jerwsalem oedd dinas y brenhinoedd, yn wir y ddinas y byddai Iesu'n gorymdeithio'n fuddugoliaethus iddi i'w groesawu fel brenin (Luc 19:28-44).



---

The story of the Magi also contains many dark elements, most particularly Herod's despotic orders to massacre all the male children around Bethlehem who were two years old or under (Matt 2:16-18). The cruelty of these narratives resonates with the long history and difficult present of the Middle East.

It was in the Middle East that the Word of God took root and bore fruit: thirty and sixty and one hundredfold. And it was from this East that the apostles set out to preach the Gospel to the ends of the earth (Acts 1:8). The Middle East has given thousands of Christian witnesses and thousands of Christian martyrs. And yet now, the very existence of the small Christian community is threatened as many are driven to seek a more secure and prosperous life elsewhere. Like the light which is the child Jesus, the light of Middle Eastern Christianity is increasingly threatened in these difficult times.

Jerusalem is a powerful symbol for Christians because it is “The City of Peace”, where all humanity was saved and redeemed. But today peace is missing from the city. Even prayer in Jerusalem has become subject to political and military measures. Various parties stake their claim to it and disregard others. Jerusalem was the city of kings, indeed the city that Jesus will enter triumphantly, acclaimed as king (Lk 19:28-44).





Yn naturiol, disgwylia'r Doethion ddod o hyd i'r brenin y bu i'r seren gyhoeddi ei eni yn y ddinas frenhinol hon. Fodd bynnag, fel yr adroddâ'r hanes, yn hytrach na dathlu bendith genedigaeth y brenin achubol, roedd Jerwsalem i gyd mewn cythrwfl, yn ddigon tebyg i fel y mae heddiw. Heddiw, yn fwy nag erioed, mae angen goleuni nefol ar y Dwyrain Canol i dywys y bobl.

Yn y cyd-destun hwn y mae pobl yn ceisio'r brenin newydd ei eni, brenin tynerwch, tangnefedd a chariad. Ond ble mae'r seren sy'n arwain y ffordd tuag ato? Cenhadaeth yr Eglwys yw gweithredu fel y seren sy'n goleuo'r ffordd at Grist, goleuni'r byd. Trwy air a gweithred gelwir Cristnogion i oleuo'r ffordd fel y caiff Crist, unwaith eto, ei ddatguddio i'r cenhedloedd. Ond mae'r rhaniadau rhyngom yn pylu goleuni'r dystiolaeth Gristnogol ac yn gwneud y llwybr yn aneglur, gan atal eraill rhag dod o hyd i'w ffordd tuag at Grist. I'r gwrthwyneb, fodd bynnag, mae Cristnogion sy'n addoli Crist yn unedig, ac yn agor eu trysorau wrth gyfnewid eu rhoddion, yn dod yn arwydd o'r undod mae Duw yn ei ddymuno ar gyfer ei greadigaeth gyfan.



Naturally the Magi expected to find the new-born king revealed by the star in this royal city. However, the narrative tells us that, rather than being blessed by the birth of the Saviour king, the whole of Jerusalem was in tumult, much as it is today. Today, more than ever, the Middle East needs a heavenly light to accompany the people.

In this context Christians are called to seek the new-born king, the king of gentleness, peace and love. But where is the star that leads the way to him? It is the mission of the Church to be the star that lights the way to Christ who is the light of the world. By word and through action the Christian people are called to light the way so that Christ might be revealed, once again, to the nations. Yet divisions dim the light of Christian witness and obscure the way, preventing others from finding their way to Christ. Conversely, Christians united in their worship of Christ, and opening their treasures in an exchange of gifts, become a sign of the unity that God desires for all of creation.



Mae pandemig byd-eang COVID-19, yr argyfwng economaidd sydd wedi dilyn, methiant strwythurau gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol i ddiogelu'r gwannaf a'r mwyaf agored i niwed a'r hiliaeth sy'n andwyo'n cymunedau wedi tanlinellu'r angen byd-eang am oleuni i ddisgleirio yn y tywyllwch. Mae'r seren a lewyrchodd yn y dwyrain, y Dwyrain Canol, ddwy fil o flynyddoedd yn ôl yn parhau i'n galw at y preseb, i'r fan lle ganwyd Crist. Mae'n ein tywys at y lle y mae Ysbryd Duw yn fyw ac yn weithgar.

Ar ôl dod i wŷdd y Gwaredwr a'i addoli ynghyd, mae'r Doethion yn dychwelyd i'w gwledydd ar hyd ffordd wahanol, ar ôl cael eu rhybuddio mewn breuddwyd. Yn yr un modd, rhaid i'r cymundeb a rannwn wrth weddio gyda'n gilydd ein hysbrydoli i ddychwelyd atom ein hunain, ein heglwysi a'n byd ar hyd ffyrdd newydd. Ond beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol? Mae gwasanaethu'r Efengyl yn y byd sydd ohoni'n gofyn am ymrwymiad i fodau dynol, yn enwedig y tlotaf, y gwannaf a'r rhai sydd wedi'u gwthio i'r cyrion. Mae'n gofyn am dryloywder ac atebolrwydd ar ran yr eglwysi wrth ymdrin â'r byd, ac â'i gilydd. Mae hynny'n golygu bod angen i eglwysi gydweithredu i ymgeleddu'r rhai sy'n dioddef, i groesawu alltudion, i ysgafnhau beichiau'r rhai trwmlwythog ac i adeiladu cymdeithas gyfiawn a gonest. Dyma alwad ar yr eglwysi i gydweithio fel y gall pobl ifanc adeiladu dyfodol da wrth fodd calon Duw, dyfodol lle gall pob bod dynol brofi bywyd, heddwch, cyfiawnder a chariad.





The Covid-19 global pandemic; the economic crisis that has followed and the failure of political, economic and social structures to protect the weakest and most vulnerable; and the racism that blights our communities have underlined the global need for a light to shine in the darkness. The star that shone in the East, (the Middle East), two thousand years ago still leads us to the manger, to where Christ was born. It draws us to where the Spirit of God is alive and active.

After encountering the Saviour and worshipping him together, the Magi return to their countries by a different way, having been warned in a dream. The communion we share in our prayer together must inspire us to return to ourselves, our churches and our world by new ways. But what does this mean in practice? Serving the Gospel today requires a commitment to humankind, especially the poorest, the weakest and those marginalized. It requires from the churches transparency and accountability in dealing with the world, and with each other. This means churches need to cooperate to provide relief to the afflicted, to welcome the displaced, to relieve the burdened, and to build a just and honest society. This is a call for churches to work together so that we can all build a good future according to God's heart, a future in which all human beings can experience life, peace, justice, and love.

# DIWRNOD 1

“Gwelsom ei seren ef ar ei chyfodiad”

(Mathew 2:2)

*Cyfod ni a thyn ni at dy oleuni perffaith*

## *Darlleniadau*

Salm 139:1-10      Bydd dy ddeheulaw yn fy nghynnal.

2 Timotheus 1:7-10      Y gras hwn... a amlygwyd yn awr  
drwy ymddangosiad ein Gwardwr,  
Crist Iesu.

## *Myfyrdod*

Yn y byd bregus ac ansicr hwn, rydym yn chwilio am oleuni. Rydym yn chwilio am y daioni o fewn ein hunain, ond yn aml rydym yn cael ein llethu gymaint gan ein gwendid fel bod ein gobaith yn pylu. Mae ein hyder yn gorffwys yn Nuw, sydd, yn ei ddoethineb, yn ein galluogi i obeithio am ei drugaredd – ond cawn ein synnu pan ddaw ei drugaredd ar ffurf ddynol: Crist yw'r goleuni yn ein plith! 'Ysbryd sy'n peri nerth a chariad' yw rhodd Duw i ni. Nid drwy ddibynnu ar ein nerth a'n gallu ein hunain y cawn ein harwain ar y ffordd i'r goleuni perffaith hwn, ond yn hytrach drwy arweiniad Ysbryd Glân Duw.

Mae goleuni'r seren o'r dwyrain yn treiddio i ddyfnderoedd y tywyllwch sy'n ein gwahanu oddi wrth ein gilydd. Mae'r seren yn parhau i ddisgleirio a newid wyneb hanes. Ar

hyd yr oesoedd mae'r byd wedi dod i adnabod trwy fywydau dilynwyr Crist y gobaith sy'n cael ei ysbrydoli gan yr Ysbryd Glân. Ac mae'r Crist Atgyfodedig yn parhau i ddisgleirio, fel llusern i'n harwain ni oll i'r golau perffaith hwn, gan oresgyn y tywyllwch sy'n ein gosod ar wahân.

Mae'r awydd i oresgyn tywyllwch arwahanrwydd yn ein gorfodi i weddio a gweithio dros undod Cristnogol.

## *Gweddi*

Greawdwr goleuni,  
goleua ein llwybr wrth oleuni Crist,  
sy'n mynd o'n blaen ac yn ein  
harwain.  
Bydded yntau'n llusern i'n pererindod.  
Goleua ni a thriga ynom ni.

Tywys ni i ganfod preseb yn ein  
calonnau lle mae goleuni mawr yn  
parhau i ddisgleirio.  
Diolchwn i ti am rodd y Seren honno  
nad yw'n pylu, Iesu, ein Harglwydd  
a'n Gwardwr.  
Iachâ ein rhaniadau a thyn ni'n  
agosach at y Goleuni  
fel y gallwn ganfod ein hundod  
ynddo ef.  
Amen.

## Pennill Emyn

Peraidd ganodd sêr y bore  
ar enedigaeth Brenin nef;  
doethion a bugeiliaid hwythau  
deithient i'w addoli ef:  
gwerthfawr drysor,  
yn y preseb Iesu gaed.

*Morgan Rhys (1716-1779)*

## Cwestiynau

Wrth fyfyrto ynghylch y flwyddyn a  
aeth heibio:

**Byd-eang:** Beth allai swyddogaeth yr  
Eglwys fod wrth gyhoeddi newyddion  
da'r Efengyl mewn byd lle mae  
cymaint o anghyfiawnder?

**Lleol:** Ble ydych chi wedi gweld  
arwyddion o obaith yn eich cymuned,  
yn enwedig yn ystod cyfnod o  
bandemig?

**Personol:** Sut ydych chi wedi ceisio'r  
'goleuni' yng nghanol y tywyllwch?

## Ewch a Gwnewch

(gweler [www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Byd-eang:** Ewch i wefan [Embrace the Middle East](#) a gweld pa gamau y gallwch  
eu cymryd i gydsefyll â Christnogion y Dwyrain Canol.

**Lleol:** Trefnwch wynos wrth olau kannwyll ar ran eglwysi eich ardal fel  
gweithred o undod ar gyfer yr wythnos hon. Nid oes raid i'r wynos fod yn fater  
o bawb yn dod ynghyd yn un lle ond gallai olygu bod pob eglwys yn annog ei  
haelodau i osod kannwyll mewn ffenestr ar ddiwrnod ac amser penodol.

**Personol:** Syllwch ar y sêr yr wythnos hon. Edrychwch ar seren lachar ac  
oedwch mewn gweddi ac addoliad gerbron Creawdwr goleuni. Nid oes raid i chi  
fynd allan – gallech ymweld â phlanetariwm ar-lein.

# DAY 1

“We observed his star in the East”

(Mt 2:2)

*Raise us up and draw us to your perfect light*

## Readings

Psalm 139:1-10

Your right hand shall hold me fast

2 Timothy 1:7-10

This grace... has now been revealed through the appearing of our Saviour Christ Jesus

## Reflection

In this fragile and uncertain world, we look for light. We look for the good within ourselves, but often we are so overwhelmed by our weakness that hope fails us. Our confidence rests in God, who in wisdom, enables us to hope for his mercy. We are surprised when it comes in human form: Christ is the light in our midst! God's gift to us is a 'spirit of power, and love'. We are drawn forward on the way to this perfect light by God's Holy Spirit, not by relying on our own strength and ability.

In the midst of darkness, the star from the East penetrates the depths of the darkness that separates us from one another. The star's light continues to shine and to change the face of history. Throughout the ages, by the lives of Christ's followers, the world has come

to know the hope that is inspired by the Holy Spirit. And the Risen One continues to shine, like a beacon guiding all into this perfect light and overcoming the darkness which separates us from one another.

The desire to overcome the darkness that separates us compels us to pray and work for Christian unity.

## Prayer

Creator of light,  
illumine our path by the light of  
Christ who moves before us and  
leads us.  
May he be a beacon for our  
pilgrimage.  
Enlighten us and dwell within us.

Guide us to discover a manger in our hearts where a great light still shines.

We thank you for the gift of that unfading Star, Jesus Christ, our Lord and Saviour.

Heal our divisions and draw us

## Hymn Verse

How brightly beams the Morning Star!

What sudden radiance from afar

Doth glad us with its shining,  
Brightness of God that breaks our night

And fills the darken'd souls with light

Who long for truth were pining!  
Thy Word, Jesu, only feeds us,

## Questions

Reflecting on the past year:

**Global:** What could the role of the Church be in proclaiming the good news of the Gospel in a world where there is so much injustice?

**Local:** Where have you seen signs of hope in your community, especially during a time of pandemic?

**Personal:** How have you sought 'the light' in the midst of darkness?

Rightly leads us,  
Life bestowing;  
Praise, oh praise such love  
o'erflowing.

*Johann Schlegel, tr. Catherine Winkworth*

## Go and do

(see [www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Global:** Visit the website of [Embrace the Middle East](#) and see what actions you can take to be in solidarity with Christians of the Middle East.

**Local:** Organise a candle lit vigil with the churches in your area as an act of unity for this week. It doesn't have to be in person but each church could encourage members to put a candle in their window at an agreed day and time.

**Personal:** Take time this week to star gaze. Let your eyes settle on an unfading star and pause in reverence and prayer before the Creator of light. You don't have to go outside you can search for and visit an online planetarium.

# DIWRNOD 2

“Ble mae'r hwn a anwyd yn frenin yr Iddewon?”  
(Mathew 2:2)

*Mae arwain yn wylaidd yn dymchwel muriau ac yn  
adeiladu â chariad*

## *Darlleniadau*

Jeremeia 23:1-6      Bydd yn teyrnasu'n frenin ac yn  
llywodraethu'n ddoeth.

Philipiaid 2:5-11      Ni chyfrifodd fod cydraddoldeb â  
Duw yn beth i ddal gafael ynddo.

## *Myfyrdod - Arwain yn y ffordd gywir*

Mae Jeremeia'n condemnio arweinyddiaeth wael brenhinoedd Israel a achosodd rwygiadau ac a wasgarodd y bobl, arweinyddiaeth a ddinistriodd genhedloedd ac a yrrodd eu dinasyddion i alltudiaeth. I'r gwrthwyneb, mae'r Arglwydd yn addo bugail frenin a fydd 'yn gwneud barn a chyfiawnder yn y tir' ac yn casglu'r ddiadell yn un.

Dim ond yng Nghrist yr ydym wedi gweld arweinydd a oedd wir wrth fodd calon Duw. Yn Iesu rydym yn canfod gwas gwylaidd a chariadus nad yw'n ystyried cydraddoldeb â Duw yn beth i ddal gafael ynddo. Daw i wasanaethu, yn hytrach na chael ei wasanaethu, a gelwir ei ddilynwyr i fyw yn yr un modd.

Heddiw, gwelir pobl yn y Dwyrain

Canol yn wynebu alltudiaeth wrth i 'farn a chyfiawnder' ddod yn rhinweddau prin, nid yn unig yno ond ledled y byd. Fodd bynnag, mae gan arweinwyr, yn y byd ac yn yr Eglwys, gyfrifoldeb i ddwyn pobl ynghyd yn hytrach na'u gwasgaru neu eu rhannu. Po fwyaf y bydd Cristnogion yn efelychu arweinyddiaeth Crist fel gwas, po fwyaf y gellir goresgyn rhaniadau yn y byd a'r Eglwys. Wrth inni weithio i sicrhau tegwch, cyfiawnder a heddwch i bawb, byddwn yn tystio'n ostyngedig i deyrnasiad y bugail frenin, ac yn denu eraill ato.

## *Gweddi*

Dduw cyfiawn a theg,  
cyffeswn ger dy fron ein bod yn aml  
yn cael ein temtio i ddilyn dulliau'r  
byd o arwain.

Cynorthwya ni i geisio'n Harglwydd Iesu Grist nid ym mhalasau'r rhai grymus ond yn y preseb tlawd. Bydded i ni ei efelychu yn ei dynerwch a dod yn weision i'n gilydd mewn ufudd-dod i ti.

Gweddïwn yn enw Crist, yr hwn sydd gyda thi a'r Ysbryd Glân yn teyrnasu'n dragwyddol mewn gogoniant.

Amen.

## *Pennill / Cerdd*

Dyddiau cryfion byd oeddynt,  
adeig i'r gwirionedd ymddeol, yn  
ddiddefnydd bellach  
a mwy o goel i gelwydd,  
a chyfiawnder yn gyff gwawd,  
yn enw'r eilun euraid  
a wnaed o fywydau tawdd.

Ac yna daeth y pla

## *Cwestiynau*

**Byd-eang:** Ydych chi wedi gweld yr Eglwys yn dilyn patrwm Iesu o arwain drwy wasanaethu?

**Lleol:** Pa arweinydd Cristnogol (lleol neu genedlaethol) sy'n ennyn eich edmygedd am fod â'r gallu i ysbrydoli undod a sêl dros gyfiawnder? Pa rinweddau sy'n ei (g)alluogi i arwain yn effeithiol?

**Personol:** Pryd ydych chi wedi cael eich ysbrydoli i arwain wrth geisio cyfiawnder neu weithio tuag at undod?

a dyddiau'r gwas  
dros bob man, â'i hunaniaeth  
mewn bathodyn,  
mewn cartref gofal a gofal dwys,  
a'r deml afradlon hael  
â thaclau anadlu.

## *Ewch a Gwnewch* (gweler [www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Byd-eang:** Ystyriwch nifer o enghreifftiau o sefyllfaoedd lle rydych yn gweld arweinyddiaeth dda ar waith. Ceisiwch ganfod beth yw'r egwyddorion arweinyddiaeth sy'n gyffredin i'r enghreifftiau hynny ac ystyriwch ym mha ffyrdd y gellid hybu'r egwyddorion hynny wrth geisio undod.

**Lleol:** Gwahoddwch arweinydd lleol i gyfarfod o'r eglwysi yn eich ardal er mwyn clywed rhagor am ei (g)waith a'r ffyrdd gorau y gallech chi gynorthwyo a chalonogi'r arweinydd.

**Personol:** Dysgwch am [gylch gofal a chylch dylanwad](#), neu atgoffwch eich hun amdanynt, ac ystyriwch sut orau y gallech gynnig arweiniad yn bersonol yr wythnos hon i hybu achos undod.

# DAY 2

“Where is the child who has been born king of the Jews?”

(Mt 2:2)

*Humble leadership breaks down walls  
and builds up with love*

## *Readings*

Jeremiah 23:1-6      He shall reign as king and deal wisely

Philippians 2:5-11      Who... did not regard equality with  
God as something to be exploited

## *Reflection - True Leadership*

Jeremiah denounces the bad leadership of the kings of Israel who divided and scattered the people, a leadership that destroyed nations and drove their citizens into exile. In contrast, the Lord promises a shepherd-king who will ‘execute justice and righteousness in the land’ and gather the flock as one.

Only in Christ have we seen the example of a leader truly after God’s heart. In him we encounter a loving, humble servant who does not regard equality with God as something to be exploited. He comes to serve, rather than be served, and his followers are called to do the same.

Today, the Middle East is experiencing the loss of its people to exile as

‘righteousness and justice’ are becoming scarce commodities, not only there but throughout the world. Yet leaders, both in the world and in the Church, have a responsibility to bring together rather than to scatter or divide. The more faithfully Christians emulate the servant leadership of Christ, the more division in both the world and the Church will be overcome. As we work for righteousness, justice and peace for all, we witness humbly to the shepherd-king, and draw others into his presence.

## *Prayer*

Just and righteous God,  
we confess before you that we often  
covet worldly models of leadership.



Help us to seek our Lord Jesus Christ  
not in the palaces of the powerful  
but in the humble manger.

May we emulate him in his meekness  
and become servants to each other  
in obedience to you.

We pray in the name of Christ, who  
with you and the Holy Spirit reigns  
forever in glory.

Amen.

## Verse / Poem

It was the day of the strong men  
the day when truth retired, redundant  
because lies had more glitz,  
and justice disabled, mocked,  
in the name of a golden god  
cast from melted down lives.

And then came the pestilence

## Questions

**Global:** How have you seen the Church follow Jesus' pattern of leading through service?

**Local:** What Christian leader (either local or national) do you admire for the ability to inspire unity and a concern for justice? What qualities enable that person to lead effectively?

**Personal:** When have you been inspired to take the lead in seeking justice or working towards unity?

and the day of the servant  
ubiquitous, anonymous,  
in nursing home and ICU,  
and the temple profligate with treasure  
in cylinders of breath.

## Go and do

(see [www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Global:** Focus on a number of examples of where you consider good leadership to be evident. Try to identify the shared principles of leadership in these examples and consider how they can be encouraged in the work of creating unity.

**Local:** Invite a local leader to a gathering of the churches in your area to hear more about their work and to find out how you can best support and encourage them.

**Personal:** Find out about or refresh your memory on the [circle of concern and circle of influence](#) and consider how you can best exercise your personal leadership this week to help the cause of unity.

# DIWRNOD 3

“A phan glywodd y Brenin Herod hyn,  
cythruddwyd ef, a Jerwsalem i gyd gydag ef”

(Mathew 2:3)

*Presenoldeb Crist yn troi'r byd ben i waered*

## *Darlleniadau*

Salm 2:1-10

Pam y mae'r cenedloedd yn  
terfysgu...?

2 Thesaloniaid 2:13-3:5

Ond y mae'r Arglwydd yn  
ffyddlon, ac fe'ch cadarnha chwi.

## *Myfyrdod*

Mae dyfodiad Crist yn tarfu ar ffyrdd y byd. Daw mewn gwyleidd-dra, gan gondemnio drygioni'r anghyfiawnder a'r gormes sy'n cyd-fynd â'r uchelgais am bŵer, cyfoeth a statws. Mae Iesu'n galw am newid calonnau a thrawsnewid bywydau, a fydd yn rhyddhau bodau dynol o'r hyn sy'n sarnu eu dynoliaeth. Mae hynny'n tarfu ar y byd sydd ohoni oherwydd bod Iesu'n drysu cynlluniau'r rhai sy'n ceisio ond eu budd eu hunain ac yn esgeuluso lles pawb arall. Ond i'r rhai sy'n gweithio tuag at heddwch ac undod, mae dyfodiad Crist yn rhagflaenu gwawrio gobaith.

Fe'n gwahoddir i ymrwymo i weithredu'n adeiladol i roi cyfiawnder ar waith, gan gydnabod lle'r ydym

wedi crwydro oddi wrth lwybr Duw, llwybr cyfiawnder a heddwch. Yna daw'r ateb i'n gweddi am undod Cristnogol i'r amlwg wrth i eraill gydnabod ynom bresenoldeb Crist yn y byd. Gallwn ddod â goleuni gobaith i'r rhai sy'n byw yn nhywyllwch aflonyddwch gwleidyddol, tloidi cymdeithasol a chamwahaniaethu strwythurol. Y Newyddion Da yw bod Duw yn ffyddlon, a bob amser yn ein cryfhau a'n hamddiffyn, gan ein hysbrydoli i weithio er lles pobl eraill, yn enwedig y rhai sy'n dioddef gormes, casineb, trais a phoen.

## *Gweddi*

Arglwydd, rwyt wedi'n harwain o dywyllwch i obaith yn Iesu.

Una ni mewn ymrwymiad i hyrwyddo  
teyrnasiad cariad, cyfiawnder a  
heddwch drwyddot ti,  
gan ddod â goleuni i'r rhai sy'n byw yn  
nhywyllwch anobaith a dadrithiad.  
Llewyrycha dy oleuni arnom ac  
amgylchyna ni â gwres dy gariad.  
Cyfod ni atat ti, fel y gall ein bywydau  
dy ogoneddu di,  
Dad, Mab ac Ysbryd Glân.  
Amen.

## Pennill / Cerdd

Yn Nrama'r Geni yn yr ysgol gynt  
cafodd y bwli fod yn Herod.  
A Herod gwych oedd o.  
Dim angen actio.

Iesu, gofynni i mi  
ba ran fydd i minnau

## Cwestiynau

**Byd-eang:** Ble ydych chi wedi gweld  
gwerthoedd yr Eglwys yn tarfu ar  
werthoedd cymdeithas er budd pawb?

**Lleol:** A yw eich eglwys neu grŵp o  
eglwysi'n rhy gyfforddus mewn byd  
anghyfforddus? Sut ellid tarfu ar eich  
eglwys neu grŵp o eglwysi i weithredu  
o ddifrif?

**Personol:** Pryd wnaeth rhywbeth  
darfu arnoch i wneud y peth iawn?

yn yr hen fyd 'ma, dy fyd di, heddiw.  
A'r hyn a fynni  
yw i mi fynnu  
dy ysbrydoliaeth sanctaidd  
i fod yn finnau wrth dy fodd.

## Ewch a Gwnewch

(gweler [www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Byd-eang:** Troes COVID-19 y byd ben i waered gan roi cyfle i ni ddychmygu o'r  
newydd sut y gallai pethau fod. Darganfyddwch fwy ac ymunwch â'r ymgyrch  
[crack the crises](#) a sicrhau na wastreffir y cyfle hwn i drawsnewid popeth.

**Lleol:** Ystyriwch fel eglwysi ynghyd ble mae anghyfiawnder ac allgáu yn  
digwydd o fewn eich ardal a gweithiwch gydag eraill yn eich cymuned i herio a  
newid y cyfundrefnau y mae angen eu troi ben i waered.

**Personol:** Neilltuwch amser heddiw i eistedd yn dawel a dirnad pa  
anghyfiawnder sy'n tarfu fwyaf ar eich cydwybod. Treuliwch amser yn gweddïo,  
yn ymchwilio ac yn cynllunio pa ffordd y gallwch weithredu yn ei erbyn, os nad  
ydych eisoes yn gwneud hynny.

# DAY 3

“When king Herod heard this he was disturbed,  
and all Jerusalem with him”

(Mt 2:3)

*The presence of Christ, turning the world upside down*

## Readings

Psalms 2:1-10

Why do the nations conspire...?

2 Thessalonians 2:13-3:5

But the Lord is faithful, he will  
strengthen you

## Reflection

Christ's coming disturbs the ways of the world. He comes in humility, denouncing the evil of injustice and oppression that accompanies the ambition for power, wealth and status. Jesus calls for a change of heart and a transformation of life, which will bring liberation from all that dehumanises. This creates disturbance precisely because he rocks the boat of those who seek only their own interests and neglect the common good. But for those who work for peace and unity, Christ's coming brings the light of hope.

We are invited to commit ourselves to act constructively to make justice a reality, acknowledging where we have strayed from God's ways of justice and

peace. Then the answer to our prayer for Christian unity becomes visible as others recognise in us Christ's presence in the world. We can bring the light of hope to those living in the darkness of political unrest, social poverty, and structural discrimination. The Good News is that God is faithful, always strengthening and protecting us, inspiring us to work for the good of others, especially the victims of oppression, hatred, violence and pain.

## Prayer

Lord, you led us out of darkness to  
hope in Jesus.  
Unite us in our commitment to  
establish your reign of love, justice  
and peace,

bringing light to those living  
in the darkness of despair and  
disillusionment.  
Shine your light upon us and surround  
us with the warmth of your love.  
Lift us up to you, so that our lives may  
glorify you,  
Father, Son and Holy Spirit.  
Amen.

## Verse / Poem

In the school Nativity Play  
they cast the class bully as Herod.  
Inspired.  
No acting required.

Jesus, you ask  
which role shall I play  
in my world, your world, today.

## Questions

**Global:** Where have you seen the values of the Church disturbing society's values for the common good?

**Local:** Is your church or group of churches too comfortable in a discomfoting world? How could your church or group be disturbed into real action?

**Personal:** When have you been disturbed into doing what was right?

And you will me to seek first  
your holy inspiration  
that I might be just  
myself.

## Go and do

(see [www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Global:** Covid-19 turned the world upside down and provided an opportunity to reimagine how things could be. Find out more about and get involved in the campaign to [crack the crises](#) and ensure this opportunity for transformation is not lost.

**Local:** Consider as churches together what situations of injustice or exclusion exist in your locality. Work with others in your community to challenge and change the systems that need turning upside-down.

**Personal:** Take time today to sit in stillness and discern what injustice most disturbs your conscience, spend time praying, researching and planning how you can take action about it (if you are not already involved in doing so).

---

## Dyddiadau

Yn draddodiadol, cedwir yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol o 18-25 Ionawr (wyth niwrnod Pedr a Phaul). Fodd bynnag, bydd rhai grwpiau yn dewis adegau eraill o'r flwyddyn, yn enwedig oddeutu'r Pentecost, sy'n wyl symbolaidd o safbwynt undod yr eglwys. Penderfynwch chi, gan gymryd sylw o ffactorau lleol. I ganiatáu eu defnyddio ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, nodir y defnyddiau ar gyfer y Diwrnodau â'r rhifau 1-8.

## Trefn y Gwasanaeth

Gallwch dynnu allan y drefn gwasanaeth yng nghanol y daflen a'i llungopïo, os mynnwch. Neu gallwch lawrlwytho'r holl adnoddau oddi ar wefan Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, ac mae croeso i chi eu golygu a'u haddasu at ddefnydd lleol. Cydnabyddwch, os gwelwch yn dda, mai ffynhonnell y deunydd yw Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, adnoddau ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol.

## Wal Undod Cristnogol

Os gwelwch yn dda, ychwanegwch fanylion eich digwyddiadau a ffotograffau ohonynt ynghyd â'ch gweddiâu a'ch negeseuon o undod at y 'wal' undod Cristnogol ar [www.weekofprayer.org](http://www.weekofprayer.org) drwy eu rhoi ar Twitter gan ddefnyddio hashnod #wpcuwall. Bydd eich trydariadau yn ymddangos yn awtomatig (ar ôl oedi byr).

## Cydnabyddiaeth am ffotograffau

Llun gwreiddiol o Nablws: t1, nn-nn (CC BY-NC-SA 2.0)

Dr. Michael Loadenthal (<https://michaelloadenthal.academia.edu/>)

t25 Chris Larson (CC BY-SA 4.0)

# Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2022

## *Trefn Addoliad* *Order of Worship*



Llun gwreiddiol o Nablws / Original photo of Nablus:  
Dr. Michael Loadenthal (<https://michaelloadenthal.academia.edu/>)

© Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon

  
churches  
together  
IN BRITAIN AND IRELAND®

*Argymhellir bod Golygfa'r Geni, sy'n darlunio ymweliad y Doethion â'r Teulu Sanctaidd, yn cael ei gosod mewn man amlwg fel ffocws gweledol i'r gwasanaeth.*

## Agoriad

*Mae'r clerigion a'r rhai eraill sy'n cymryd rhan yn gorymdeithio i mewn tra cenir emyn addas.<sup>1</sup>*

## Galwad i Addoli

Arweinydd 1    Yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân.

Cynulleidfa    **Amen.**

Arweinydd 1    Frodyr a chwiorydd, rydym yn uno heddiw â chydgreidinwyr ledled y byd wrth i ni ddod ynghyd i weddio dros undod gwladwyr Eglwys. Rydym yn gwneud hyn gan ddefnyddio adnoddau addoli a baratowyd gan Gyngor Eglwysîr Dwyrain Canol. Mae ein thema wedi'i hysbrydoli gan ymweliad y Doethion â'r Brenin newydd-anedig, fel y'i disgrifir yn yr Efengyl yn ôl Sant Mathew: '*Oherwydd gwelsom ei seren ef ar ei chyfodiad, a daethom i'w addoli.*' Gadewch inni edrych tua'r seren a welwyd yn y Dwyrain a chaniatáu iddi ein harwain ninnau hefyd.

Deuwn i bresenoldeb Duw gan gydsefyll â'r holl rai sy'n sâl, y rhai sy'n dioddef, y rhai a wthiwyd i'r ymylon, y ffoaduriaid, a'r dadwreiddiedig ger ei fron, gan wybod y gall Duw chwalu ein tywyllwch â'i oleuni. Wrth i ni weddio heddiw am undod yr Eglwys, bydded i ni oll gyd-gerdded i gyfarfod y Gwarddwr, goleuni'r byd.



*It is recommended that a crib, featuring the visit of the Magi to the Holy Family be placed in a prominent place as a visual focus for the worship service*

## Opening

*The clergy and other participants enter in procession while a suitable hymn is sung.*<sup>1</sup>

## Call to Worship

**Leader 1** In the name of the Father, and of the Son, and of the Holy Spirit.

**Congregation** Amen.

**Leader 1** Brothers and sisters, we are united today with fellow believers throughout the world as we gather to pray for the visible unity of the Church. We do this with worship resources prepared by the Middle East Council of Churches. Our theme is inspired by the visit of the Magi to the new-born King, as described in the Gospel according to Saint Matthew: *“We observed his star in the East, and have come to pay him homage.”* Let us fix our eyes on the star that was seen in the East and allow it to lead us too.

Let us come into God’s presence in solidarity with all who are sick, suffering, marginalized, displaced and oppressed, knowing that our darkness can be dispelled by God’s light. As we pray today for the unity of the Church, may we all journey together to meet Jesus the Saviour, the light of the world.

**Arweinydd 1** Gogoniant a fo i ti, Dad Hollalluog, gan i ti ddatgelu dy hun drwy dy greadigaeth a gwahodd yr holl bobloedd i sefyll yn dy bresenoldeb. Rydym wedi gweld seren Iesu yn ein bywydau ac wedi dod i'w addoli yn union fel y gwnaeth y Doethion. Rydym yn ein cyflwyno ein hunain iddo heddiw a gofynnwn am i'r Ysbryd Glân fod yn bresennol yn ein plith.

**Cynulleidfa** **Una ni â'n gilydd wrth i ni ddod i ddatgan dy glod, o Arglwydd ein Duw.  
Amen.**

## **Emyn**

Datganaf dy Glod, O Arglwydd fy Nuw.

## **Gweddïo mewn Mawl a Chyffes**

**Arweinydd 1** Gogoneddwn di, O Arglwydd, Creawdwr y nefoedd a'r ddaear, gan i ti osod y goleuadau yn uchder y ffurfafen. Gwahanaist y goleuni oddi wrth y tywyllwch a threfnu arwyddion i nodi adegau cysegredig, a'r dyddiau a'r blynyddoedd. Llenwaist yr wybren â sêr. Mor ardderchog yw dy weithredoedd – mae'r nefoedd yn datgan dy ogoniant a'r ffurfafen yn mynegi gwaith dy ddwylo!

**Cynulleidfa** **Gogoneddwn di, O Arglwydd.**

**Arweinydd 2** Molwn di am na wnaethost ein gwrthod, er gwaethaf ein gwrthryfel, ond yn hytrach anfon dy Fab i oleuo ein tywyllwch ac i fod i ni'n oleuni ac yn iachawdwriaeth. Ynddo ef oedd bywyd a'r bywyd hwnnw oedd goleuni'r holl ddynoliaeth. Ac mae'r goleuni'n llewyrchu yn y tywyllwch.

**Cynulleidfa** **Molwn di, O Arglwydd.**

Leader 1

Glory be to you Father Almighty, for you have revealed yourself through your creation and invite all people to gather in your presence. We have seen the star of Jesus in our lives and have come to worship him just as the Magi did. We offer him ourselves today and we ask for the presence of the Holy Spirit among us.

**Congregation** Unite us as we come to worship the king, all glorious above.  
**Amen.**

## Hymn

O Worship the King.

## Prayer of Praise and Confession

Leader 1

We glorify you, O Lord, creator of heaven and earth, for you have set the lights in the vault of the sky. You separated light from darkness and arranged signs to mark sacred times, and days and years. You studded the firmament with stars. How majestic are your works, the heavens declare your glory and the skies proclaim the work of your hands!

**Congregation** We glorify you, O Lord.

Leader 2

We praise you for you did not abandon us despite our rebellion but sent your Son to brighten our darkness and be our light and our salvation. In him was life, and that life was the light of all humanity. And the light shines in the darkness.

**Congregation** We praise you, O Lord.

Arweinydd 1 Addolwn di, O Arglwydd, oherwydd rwy'ti gyda ni yn anhrefn ein bywydau drwy nerth dy Ysbryd Glân. Rwy'ti yn llusern i'n llwybrau ac yn rhoddi i ni ddoethineb a ffydd mewn byd o anwiredd ac amheuan.

**Cynulleidfa** Addolwn di, O Arglwydd.

Arweinydd 2 Diolchwn i ti, O Arglwydd, am i ti ein hanfon i'r byd i fod yn dystion i'r goleuni hwnnw yn ein hamrywiol eglwysi a'n gwahanol ddiwylliannau ac i gyhoeddi'r Newyddion Da am Iesu, yr unig wir Frenin, gan gynnig ein hunain iddo.

**Cynulleidfa** Diolchwn i ti, O Arglwydd.

Arweinydd 1 Bydded i'r holl bobloedd ymgrymu ger dy fron a'th addoli. Yn aml bu'n well gennym y tywyllwch, ond rhoddaist i ni oleuni. Gan hynny, deawn atat gan gyffesu ein pechodau a dweud:

**Cynulleidfa** Cyffeswn ger dy fron i ni grwydro oddi ar dy lwybrau.

Rydym wedi anharddu dy greadigaeth drwy ein trachwant.

Rydym wedi llygru ac wedi gwenwyno'r awyr, y tir a'r dyfroedd, gan ddistrywio cynefinoedd a rhywogaethau.

Arweinydd 1 Arglwydd, trugarha.

**Cynulleidfa** Crist, trugarha. *(Neu gellir canu Kyrie addas.)*

**Cynulleidfa** Rydym wedi ymdrin yn hunanol â'n brodyr a'n chwiorydd. Rydym wedi caniatáu i'n hanghenion a'n dymuniadau ninnau fynd yn drech na'n hymrwymiad i gynnal cyfiawnder. Rydym wedi adeiladu muriau rhyngom ac wedi plannu hadau diffyg ymddiriedaeth.

Leader 1 We worship you, O Lord, for you accompany us in the chaos of our life through the power of your Holy Spirit. You light up our paths and give us wisdom and faith in a world of untruth and doubt.

**Congregation** We worship you, O Lord.

Leader 2 We thank you, O Lord, for you send us into the world to witness to this light, in our various churches and diverse cultures, and to proclaim the Good News to Jesus, the one true King, offering ourselves to him.

**Congregation** We thank you, O Lord.

Leader 1 May all the peoples bow before you and worship you. We have often preferred darkness, but you have given us light. Therefore, we come to you confessing our sins and saying:

**Congregation** We confess that we have turned from your ways.

**We have harmed your good creation through our greed.**

**We have polluted and poisoned the air, earth and waters,  
destroying habitats and species.**

Leader 1 Lord have mercy.

**Congregation** Christ have mercy (*or a suitable Kyrie may be sung*).

**Congregation** We have acted selfishly towards our brothers and sisters. We have put our own needs and desires above our commitment to justice. We have built walls between us and planted seeds of mistrust.

Arweinydd 1 Arglwydd, trugarha.

**Cynulleidfa Crist, trugarha.**

**Cynulleidfa Rydym wedi gwahanu pobl ar linellau ethnig a diwylliannol, gan gamwahaniaethu yn lle dathlu ein gwahaniaethau. Rydym wedi rhyfela, gan fynnu bob tro bod Iesu ar ein hochr ni.**

Arweinydd 1 Arglwydd, trugarha.

**Cynulleidfa Crist, trugarha.**

**Cynulleidfa Maddau'r holl feddyliau a'r gweithredoedd hyn, O Arglwydd, wrth i ni ddod mewn edifeirwch ger dy fron.**

Arweinydd 1 Arglwydd, trugarha.

**Cynulleidfa Crist, trugarha.**

Arweinydd 2 Hollalluog Dduw, Tad ein Harglwydd Iesu Grist, y bu i ti ei anfon yng nghyflawnder yr amser i achub yr holl bobl, deisyfwn arnat i drugarhau wrthym, i faddau i ni ein pechodau ac i'n trawsnewid i'w ddelw ogoneddus ef fel y gallwn ddisgleirio fel llusern gobaith yn ein byd trallodus.

Arweinydd 1 Arglwydd, trugarha.

**Cynulleidfa Crist, trugarha.**

Arweinydd 2 Mae Duw Hollalluog yn gwrandao ein gweddïau, yn trugarhau wrthym ac yn maddau ein pechodau.

**Cynulleidfa Diolch a fo i Dduw, yr hwn a folwn â'n holl leisiau.**

Leader 1 Lord have mercy.

**Congregation** Christ have mercy.

**Congregation** We have divided people based on ethnicity and culture, discriminating instead of celebrating difference. We have waged war, claiming Jesus for our side.

Leader 1 Lord have mercy.

**Congregation** Christ have mercy.

**Congregation** Forgive all these thoughts and deeds, O Lord, as we come before you in repentance.

Leader 1 Lord have mercy.

**Congregation** Christ have mercy.

Leader 2 Almighty God, Father of our Lord Jesus Christ, whom you have sent in the fullness of time to redeem all people, we ask you to have mercy on us, forgive us our sins and transform us into his glorious image so we can shine as a beacon of hope in our troubled world.

Leader 1 Lord have mercy.

**Congregation** Christ have mercy.

Leader 2 Almighty God hears our prayers, has mercy on us and forgives our sins.

**Congregation** Thanks be to God, whom we praise with all our voices.

# Corgan

Y Trisagion <sup>2</sup>

Sanctaid Dduw!

Sanctaid, Nerthol!

Sanctaid, Anfeidrol, rho i ni dy ras!

## Salm 8 *(yn ymatebol)*

Arweinydd 3 O Arglwydd, ein Iôr, mor ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear!  
Gosodaist dy ogoniant uwch y nefoedd.

**Cynulleidfa** Codaist amddiffyn rhag dy elynion, o enau babanod a phlant sugno, a thawelu'r gelyn a'r dialydd.

Arweinydd 3 Pan edrychaf ar y nefoedd, gwaith dy fysedd, y lloer a'r sêr, a roddaist yn eu lle,

**Cynulleidfa** beth yw meidrollyn, iti ei gofio, a'r teulu dynol, iti ofalu amdano?

Arweinydd 3 Eto gwnaethost ef ychydig islaw duw a'i goroni â gogoniant ac anrhydedd.

**Cynulleidfa** Rhoist iddo awdurdod ar waith dy ddwylo, a gosod popeth dan ei draed:

Arweinydd 3 Defaid ac ychen i gyd, yr anifeiliaid gwylltion hefyd, adar y nefoedd, a physgod y môr, a phopeth sy'n tramwyo llwybrau'r dyfroedd.



## Chant

Trisagion<sup>2</sup>

Holy God!

Holy Mighty!

Holy Immortal, have mercy on us!

## Psalm 8 *(responsively)*

**Leader 3** O Lord, our Sovereign, how majestic is your name in all the earth!  
You have set your glory above the heavens.

**Congregation** **Out of the mouths of babes and infants you have founded a safe place, to silence the enemy and the avenger.**

**Leader 3** When I look at your heavens, the work of your fingers, the moon and the stars that you have established;

**Congregation** **What are human beings that you are mindful of them, mortals that you care for them?**

**Leader 3** Yet you have made them a little lower than God, and crowned them with glory and honour.

**Congregation** **You have given them dominion over the works of your hands; you have put all things under their feet,**

**Leader 3** all sheep and oxen, and also the beasts of the field, the birds of the air, and the fish of the sea, whatever passes along the paths of the seas.



Daw'r dyfyniadau Ysgrythurol o'r Beibl Cymraeg Newydd, Argraffiad Diwygiedig,  
Hawlfraint © 2004 gan Gymdeithas y Beibl. Defnyddiwyd gyda chaniatâd Cymdeithas  
y Beibl. Cedwir pob hawl ledled y byd.



**Bible verses** from the New Revised Standard Version Bible: Anglicized Edition, copyright 1989, 1995, Division of Christian Education of the National Council of the Churches of Christ in the United States of America. Used by permission. All rights reserved.

**Cynulleidfa** O Arglwydd, ein Iôr, mor ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear!

## **Corgan**

Tui Amoris Ignem<sup>3</sup>

## **Y Darlleniad Cyntaf**

Eseia 9:2-7

## **Corgan**

Cân Goleuni<sup>4</sup> (Sant Effrem)

## **Yr Ail Ddarlleniad**

Effesiaid 5:8-14

## **Banllef yr Efengyl**

*(ar gân)*

## **Darlleniad o'r Efengylau**

Mathew 2:1-12

## **Pregeth**

*(Ennyd o dawelwch neu emyn)*

## **Credo Nicea** *(yn ôl traddodiad Eglwysi'r Dwyrain)*

**Cynulleidfa** Credwn yn un Duw,  
Y Tad, yr Hollalluog,

**Congregation** O Lord, our Sovereign, how majestic is your name in all the earth!

## Chant

Tui Amoris Ignem<sup>3</sup>

## First Reading

Isaiah 9:2-7

## Chant

Song of Light<sup>4</sup> (Saint Ephrem)

## Second Reading

Ephesians 5:8-14

## Gospel Acclamation

*(sung)*

## Gospel Reading

Matthew 2:1-12

## Sermon

*(Moment of silence or hymn)*

## Nicene Creed *(according to the tradition of the Eastern Churches)*

**Congregation:** We believe in one God,  
the Father, the Almighty,

gwneuthurwr nef a daear,  
a phob peth gweledig ac anweledig.  
Credwn yn un Arglwydd Iesu Grist,  
unig Fab Duw,  
a genhedlwyd gan y Tad cyn yr holl oesoedd,  
Duw o Dduw, Llewyrch o Lewyrch,  
gwir Dduw o wir Dduw,  
wedi ei genhedlu, nid wedi ei wneuthur,  
yn un hanfod â'r Tad,  
a thrwyddo ef y gwnaed pob peth,  
yr hwn er ein mwyn ni ac er ein hiachawdwriaeth  
a ddisgynnodd o'r nefoedd,  
ac a wnaed yn gnawd trwy'r Ysbryd Glân  
a'r Fair Forwyn,  
ac a wnaethpwyd yn ddyn,  
ac a groeshoeliwyd hefyd drosom dan Pontius Pilat.  
Dioddefodd angau ac fe'i claddwyd.  
Atgyfododd y trydydd dydd yn ôl yr Ysgrythurau,  
ac esgynnodd i'r nef,  
ac y mae'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad.  
A daw drachefn mewn gogoniant  
i farnu'r byw a'r meirw:  
ac ar ei deyrnas ni bydd diwedd.  
Credwn yn yr Ysbryd Glân,  
yr Arglwydd, rhoddwr bywyd,  
sy'n deillio o'r Tad,  
yr hwn gyda'r Tad a'r Mab  
a gydaddolir ac a gydgoneddir,  
ac a lefarodd trwy'r proffwydi.  
Credwn yn un Eglwys lân gatholig ac apostolig.

maker of heaven and earth,  
of all that is, seen and unseen.  
We believe in one Lord, Jesus Christ,  
the only Son of God,  
eternally begotten of the Father,  
God from God, Light from Light,  
true God from true God,  
begotten, not made,  
of one Being with the Father;  
through him all things were made.  
For us and for our salvation  
he came down from heaven,  
was incarnate of the Holy Spirit and the Virgin Mary  
and became truly human.  
For our sake he was crucified under Pontius Pilate;  
he suffered death and was buried.  
On the third day he rose again  
in accordance with the Scriptures;  
he ascended into heaven  
and is seated at the right hand of the Father.  
He will come again in glory to judge the living and  
the dead,  
and his kingdom will have no end.  
We believe in the Holy Spirit, the Lord, the giver of life,  
who proceeds from the Father,  
who with the Father and the Son is worshiped  
and glorified,  
who has spoken through the prophets.  
We believe in one holy catholic and apostolic Church.

**Cydnabyddwn un Bedydd er maddeuant pechodau.  
A disgwyliwn am atgyfodiad y meirw,  
a bywyd y byd sydd i ddyfod. Amen.**

## **Rhannu Goleuni Crist**

*Gosodir darn o frethyn glas tywyll i gynrhychioli wybren y nos, gyda seren fawr arno. Rhwir sêr papur i'r addolwyr ac fe'u gwahoddir i ddod ymlaen ac ychwanegu eu sêr at y darn o frethyn.*

**Arweinydd 1** Arweiniwyd y Doethion at Grist gan seren. Heddiw mae'r seren honno'n arwyddo presenoldeb Crist, a ddatguddiwyd i ni ac y mae ei oleuni'n llewyrchu arnom. Fel y bu i'r Doethion ddilyn y seren i Fethlehem, deawn ynghyd o dan y seren hon heddiw, gan ychwanegu ein sêr ein hunain at yr wybren, gan gyflwyno ynghyd ein doniau ninnau a'n gweddiâu am undod gwladwyr' Eglwys. Wrth i ni deithio tuag at y nod hwnnw, bydded i'n bywydau ynghyd fod yn dystiolaeth loyw sy'n arwain eraill i ddod i adnabod Crist.

## **Ymbiliau**

**Arweinydd 2** Mewn ffydd a hyder, deawn mewn gweddi gerbron Duw, y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân:

**Arweinydd 3** Daeth y Doethion o'r Dwyrain i addoli Iesu ac i gyflwyno rhoddion arbennig o'u diwylliannau a'u gwledydd. Gweddiwn heddiw dros yr holl gymunedau Cristnogol ledled y byd yn eu hamrywiol ddulliau addoli a'u traddodiadau: Arglwydd, gofynnwn i ti warchod y trysorau hynny, yn enwedig mewn rhannau o'r byd lle mae trais a gormes yn bygwth presenoldeb a pharhad yr Eglwys.



**We acknowledge one baptism for the forgiveness of sins.  
We look for the resurrection of the dead,  
and the life of the world to come. Amen.**

## **Sharing Christ's Light**

*A piece of dark blue cloth is hung to evoke the night sky, on which a large star is placed. Paper stars are made available for the worshippers, who are invited to come forward and add their stars to the cloth.*

**Leader 1**      A star led the Magi to Christ. Today this star points to the presence of Christ, who has been revealed to us and whose light shines on us. As the Magi followed the star to Bethlehem, we gather under this star today, adding our own stars to the sky, uniting our own gifts and prayers for the visible unity of the Church. As we journey towards that goal, may our lives together give a luminous witness that leads others to know Christ.

## **Prayers of Intercession**

**Leader 2**      With faith and confidence, we come in prayer, before God, who is Father, Son and Holy Spirit:

**Leader 3**      The Magi came from the East to pay homage and offer special gifts from their cultures and countries. We pray today for all Christian communities around the world in their diversity of worship and tradition:  
Lord we ask you to preserve these treasures, particularly in areas of the world where the presence and survival of the Church is threatened by violence and oppression.

**Cynulleidfa**     **Arglwydd, clyw ein gweddi.** (*Ar lafar neu ar gân*)

**Arweinydd 2**     Gwelodd blynyddoedd cynnar bywyd yr Arglwydd drais a lladdfeydd dan orchymyn y gormeswr Herod. Gweddiwn dros blant sy'n byw mewn rhannau o'r byd lle mae trais yn teyrnasu a lle mae ei effeithiau'n amlwg: Cryfha, O Arglwydd, rwymau undod a chariad rhwng ein heglwysi a chynorthwya ni i gydweithio ac i dystio ynghyd i'th Enw sanctaidd. Ysbrydola ni i weithio'n ddi-baid i amddiffyn y rhai sydd dan ormes ac i gynnwys y rhai a wthiwyd i'r ymylon. Ysgoga ni i sefyll ynghyd yn wyneb gorthrwm a llywodraethau gormesol wrth i ni geisio dy Deyrnas yn ein plith.

**Cynulleidfa**     **Arglwydd, clyw ein gweddi.**

**Arweinydd 3**     Yn dilyn ymweliad y Doethion, bu raid i'r Teulu Sanctaidd fudo drwy'r anialwch a dod yn ffoaduriaid yn yr Aifft. Gweddiwn dros yr holl ffoaduriaid a'r rhai sydd wedi'u dadwreiddio yn y byd hwn: Rho i ni'r adnoddau, Arglwydd, i gynnig lletygarwch i'r rhai a yrrwyd o'u cartrefi a phlanna ynom ysbryd croesawu'r rhai sy'n ceisio hafan ddiogel.

**Cynulleidfa**     **Arglwydd, clyw ein gweddi.**

**Arweinydd 2**     Roedd geni Iesu'n newyddion da i bawb, gan ddod â phobl o wahanol genhedloedd a chrefyddau ynghyd i addoli'r plentyn sanctaidd. Gweddiwn ynghylch ein hymdrechion i geisio cytgord a deialog gyda chrefyddau eraill: Arglwydd, rho i ni'r gwyleidd-dra a'r amynedd i gyd-gerdded gyda pharch ag eraill ar eu taith.

**Congregation** O, Lord hear our prayer (*spoken or sung*)

**Leader 2** The early years of the Lord's life were marked by violence and massacres at the orders of the despot Herod. We pray for children living in places in the world where violence continues and where its results are tangible. Strengthen, O Lord, the bonds of unity and mutual love among our churches and help us to cooperate and witness to your holy Name. Inspire us to work without ceasing in order to defend the oppressed and include the marginalized. Encourage us to stand together in the face of tyranny and oppressive regimes as we seek your Kingdom among us.

**Congregation** O, Lord, hear our prayer

**Leader 3** After the visit of the Magi, the holy family experienced migration through the wilderness and became refugees in the land of Egypt. We pray for all the refugees and uprooted people in this world: Equip us, Lord, to show hospitality to those driven from their homes, and grant us the spirit of welcome to those looking for a safe haven.

**Congregation** O, Lord, hear our prayer

**Leader 2** The birth of Jesus was good news for all, gathering people from different nations and religions in worship of the holy child. We pray for our efforts to seek harmony and dialogue with other religions: Lord, give us humility and patience to walk with others with respect on their journey.

**Cynulleidfa**    **Arglwydd, clyw ein gweddi.**

**Arweinydd 3**    Dychwelodd y Doethion adref ar hyd ffordd arall.  
Gweddiwn dros ein heglwysi yn y byd cyfnewidiol hwn:  
Arglwydd, cynorthwya ni i ganfod ffyrdd newydd a chreadigol  
i'th ddilyn di ac i dystio i ti fel y bydd i'r byd gredu.

**Cynulleidfa**    **Arglwydd, clyw ein gweddi.**

**Arweinydd 2**    Pan welodd y Doethion y plentyn sanctaidd, roeddent yn  
llawen dros ben.  
Dad Nefol, cadw ein llygaid arno ef fel na fyddwn yn colli'n  
ffordd. Una ni yn yr Arglwydd Iesu, y ffordd, y gwirionedd a'r  
bywyd, yr hwn a'n dysgodd i weddio gan ddweud:

**Cynulleidfa**    **Ein Tad yr hwn wyt yn y nefoedd...**

## **Emyn**

### **Anfon Allan a Bendithio<sup>5</sup>**

**Arweinydd 1**    Ewch a byddwch fyw fel plant y goleuni.

**Cynulleidfa**    **Oherwydd canfyddir ffrwyth y goleuni ym mhopeth sy'n  
dda, yn gyfiawn ac yn wir.**

**Arweinydd 1**    Na fydded i chi unrhyw ran yng ngweithredoedd diffrwyth  
y tywyllwch.

**Cynulleidfa**    **Deffrown o'n cwsg a bydd Crist yn llewyrchu arnom.**

**Congregation** O, Lord, hear our prayer

Leader 3 The Magi returned to their home by a different way.  
We pray for our churches in this changing world:  
Lord, help us to find new and creative ways to follow you and  
to witness to you so that the world may believe.

**Congregation** O, Lord, hear our prayer

Leader 2 When the Magi saw the holy child, they rejoiced with great joy.  
Heavenly Father, fix our eyes on him so we do not lose our  
way. Unite us in the Lord Jesus, who is the way, the truth, and  
the life, and who has taught us to pray, saying:

**Congregation** Our Father in heaven...

## Hymn

### Sending and Blessing<sup>5</sup>

Leader 1 Go now and live as children of light.

**Congregation** For the fruit of the light is found in all that is good and right  
and true.

Leader 1 Take no part in the unfruitful works of darkness.

**Congregation** Let us wake from sleep and Christ will shine upon us.

**Arweinydd 1** Bydded tangnefedd i'r holl gymuned, a chariad ynghyd â ffydd oddi wrth Dduw Dad a'r Arglwydd Iesu Grist. Gras fyddo gyda phawb sy'n caru'r Arglwydd Iesu Grist â chariad anfarwol.

**Cynulleidfa** Amen. Diolch a fo i Dduw.

## Emyn i Gloi

**Leader 1** Peace be to the whole community, and love with faith, from God the Father and the Lord Jesus Christ. Grace be with all who have an undying love for our Lord Jesus Christ.

**Congregation** Amen. Thanks be to God.

## Parting Hymn

<sup>1</sup> Gweler yr adnoddau ychwanegol ar-lein am awgrymiadau.  
See online additional resources for suggestions.

<sup>2</sup> Awgrymir sawl fersiwn o'r traddodiadau Dwyreiniol ac Orientalaidd yn yr Atodiad i'r fersiwn rhyngwladol (tudalen 20) – gweler y wefan.  
A number of versions from the Eastern and Oriental traditions are suggested in the Appendix of the International version (p. 20) please see the website.

<sup>3</sup> Corgan o Taizé. Gellir canfod fersiwn mewn Arabeg yn yr adnoddau ychwanegol ar-lein.  
Taizé chant. A version in Arabic can be found in the online additional resources.

<sup>4</sup> Gellir canfod cyfieithiad Saesneg a dolen at recordiad yn yr adnoddau ychwanegol ar-lein.  
English translation and link to a recording can be found in the online additional resources.

<sup>5</sup> Seiliedig ar Effesiaid 5 a 6.  
Based on Ephesians 5 and 6.

---

## Dates

The Week of Prayer for Christian Unity is traditionally observed from 18th to 25th January (the octave of St Peter and St Paul). However, some groups choose other times of the year, particularly around Pentecost which is a symbolic date for the unity of the church. Do make your own decision, taking local factors into account. To allow for use at any time in the year, the Days material uses the notation 1-8.

## Order of service

The order of service in the centre of the pamphlet can be pulled out and photocopied if you wish. Alternatively, all resources can be downloaded from the CTBI website and you are welcome to further edit or adapt them for local use. Please acknowledge the source of material as Churches Together in Britain and Ireland, Week of Prayer for Christian Unity resources.

## Christian unity wall

Please add details and photos of your events, prayers and messages of unity to the Christian unity ‘wall’ at [weekofprayer.org](http://weekofprayer.org) by posting to Twitter using the #wpcuwall hashtag. Posts appear automatically (after a slight delay).

## Photo credits

Original photo of Nablus: p.1, nn-nn (CC BY-NC-SA 2.0)

Dr. Michael Loadenthal (<https://michaelloadenthal.academia.edu/>)

P.25 Chris Larson (CC BY-SA 4.0)

# DIWRNOD 4

“A thithau Bethlehem... nid y lleiaf wyt ti o lawer”

(Mathew 2:6)

*Er mor fach ydym, ac er ein dioddef, nid oes arnom angen dim*

## Darlleniadau

Micha 5:2-5a, 7-8

Ohonot ti y daw allan... un i fod yn llywodraethwr yn Israel.

1 Pedr 2: 21-25

Ond yn awr troesoch at Fugail a Gwarchodwr eich eneidiau.

Luc 12:32-40

Peidiwch ag ofni, fy mhraidd bychan.

## Myfyrdod

Heddiw fe ystyriwn pam mae Duw yn dewis gweithredu mewn lleoedd a thrwy bobl sy'n ymddangos yn ddibwys, a'r hyn mae Duw yn ei wneud gyda hwy. Nid cwestiynau newydd yw'r rhain – mewn gwirionedd hwy yw hoff baradocsau pregethwyr adeg y Nadolig a'r Ystyryll – ac eto maent yn parhau i'n herio. Mae'r proffwyd Micha yn llefaru'n uniongyrchol wrth Fethlehem ac yn rhagweld ei mawredd fel cartref y bugail a fydd yn amddiffyn pobl Dduw. Mae Llythyr Cyntaf Pedr yn dweud wrth bobl sydd eisoes wedi dechrau dod i gydnabod mai Iesu Grist yw'r Mescia mai ef yw'r bugail sy'n dioddef o'i wirfodd er mwyn achub y praidd. Mae Efengyl Luc yn cysuro 'praidd bychan' dilynwyd Crist nad oes angen iddynt ofni, gan fod Duw wedi addo'r Deyrnas iddynt.

Rydym yn derbyn y negeseuon cysurlon hyn, a oedd wedi'u bwriadu ar gyfer pobl benodol ar adeg benodol, yng nghyd-destun ein pryderon ni ein hunain a'n dyheu am gysur. Maent yn ein gwahodd i gyfrannu tuag at waith Duw o wyrddroi anghydraddoldeb, trais ac anghyfiawnder, yn hytrach na sefyll o'r neilltu. Maent yn galw arnom i fod yn wleidyddol ymwybodol a bod yn barod yn lleol i wneud ein heglwysi ninnau'n Fethlehemau bach lle caiff Crist ei eni o'r newydd i haelioni a lletygarwch. Fe'n gelwir i gydnabod mai 'praidd bychan' ydym, yn ddibwys efallai yng ngolwg y byd, ond gyda gwerth a galwad o fewn dirgelwch mawr iachawdwriaeth.

## Gweddi

Fugail da,  
mae'r ymraniadau yn dy 'braidd  
bychan' yn tristáu'r Ysbryd Glân.



Maddau i ni ein hymdrechion tila a'n  
harafwch i gyflawni dy ewyllys.  
Rho i ni fugeiliaid doethion wrth fodd  
dy galon  
sy'n cydnabod mai pechod yw ein  
hymrannu  
ac a fydd yn arwain yr eglwysi  
mewn cyfiawnder a sancteiddrwydd,  
tuag at undod ynot ti.  
Gofynnwn i ti, Arglwydd, wrando ein  
gweddi. Amen.

## Magnificat

Bob nos Sul yn 'rEglws, 'stalwm,  
roeddan ni, fy Nhad a fi, yn canu:  
Efe a dynnodd i lawr y cedyrn o'u  
heisteddfâu  
ac a ddyrchafodd y rhai isel radd.  
Efe a lanwodd y rhai newynog â  
phethau da  
ac a anfonodd ymaith y rhai goludog  
mewn eisiau.  
Ac wedyn wnes i ddysgu  
nad sôn odd hyn am bobol, a bwyd, a

## Cwestiynau

**Byd-eang:** Paratowyd y deunyddiau  
hyn pan oedd trais unwaith eto'n  
teyrnasu yn Jerwsalem a Gaza.  
Beth yw'r ffyrdd gorau i'r gymuned  
Gristnogol fyd-eang gefnogi'r  
Cristnogion sy'n rhannu'r tir dadleuol  
hwnnw i fod yn oleuni yn y tywyllwch  
yno ac i fod yn bobl sy'n trawsnewid  
ofn ac yn dangnefeddwyr?

**Lleol:** Sut allai ein heglwysi lleol ddod  
yn Fethlehemau bach – lleoedd y  
gall Crist gael ei eni, ei groesawu a'i  
anrhydeddu ynddynt?

**Personol:** Pryd ydych chi wedi gweld  
y bywyd sydd o Dduw yn tyfu mewn  
pobl a lleoedd na fu i chi dalu fawr o  
sylw iddynt o'r blaen?

phetha, a golud, a dim,  
ma symbola oeddan nhw, petha  
ysbrydol, braf,  
dysgu bod yn rhy dwp i gymryd Duw  
ar ei air.

## Ewch a Gwnewch (gweler [www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Byd-eang:** Ewch i wefan [Ymddiriedolaeth Amos](#) i ddarganfod mwy ynghylch sut  
mae sefydlu heddwch ar sail cyfiawnder yn y Dwyrain Canol.

**Lleol:** Trefnwch fel eglwysi ynghyd i weddio am heddwch yn y Dwyrain Canol  
ar y 24ain o bob mis. Gallwch ddefnyddio'r [adnoddau hyn](#) gan Gymorth  
Cristnogol i'ch cynorthwyo gyda'ch gweddio.

**Personol:** Cyflwynwch yr ofnau sy'n eich cadw ar wahân i Gristnogion o  
draddodiadau eraill i'r Bugail Da mewn gweddi. Myfyriwch ar eiriau'r Bugail Da  
- 'Peidiwch ag ofni, fy mhraidd bychan.'

# DAY 4

“And you, Bethlehem... are by no means least”  
(Mt 2:6)

*Though small and suffering, we lack nothing*

## Readings

Micah 5:2-5a, 7-8

From you shall come forth ... one who is to rule in Israel

1 Peter 2: 21-25

Now you have returned to the shepherd and guardian of your souls

Luke 12:32-40

Do not be afraid, little flock

## Reflection

Today we consider why God chooses to act in and through seemingly insignificant places and people, and what God does with them. These are not new questions – in fact they are the favourite paradoxes of preachers in the Christmas and Epiphany seasons – yet they continue to challenge us. The prophet Micah speaks directly to Bethlehem and predicts its greatness as the home of the shepherd who will defend God’s people. The First Letter of Peter tells people who have already begun to identify Jesus Christ with the Messiah that he is the shepherd who willingly suffers to save the flock. The Gospel of Luke reassures the ‘little flock’ of Christ’s followers that they need have no fear, because God has promised them the Kingdom.

We receive these messages of

consolation, directed to particular people at a particular time, in the context of our own concerns and longing for consolation. They invite us to take part in God’s transformation of inequality, violence and injustice, not to wait passively for these things to happen. They call on us to be politically aware; to be locally ready to make our churches little Bethlehems where Christ can be born in generosity and hospitality; to recognise ourselves as a ‘little flock’, unimportant perhaps in the world’s eyes, but with a value and a vocation in the great mystery of salvation.

## Prayer

Good Shepherd,  
the fragmentation of your ‘little flock’  
grieves the Holy Spirit.  
Forgive our weak efforts and slowness  
in the pursuit of your will.

Give us wise shepherds after your own heart  
who recognise the sin of division,  
and those who will lead the churches  
with righteousness and holiness,  
to unity in you.  
We ask you, Lord, to hear our prayer.  
Amen.

## Magnificat

Every Sunday night, back in the day,  
in Church,  
there we would be, my Dad and I,  
chanting:  
He hath put down the mighty from  
their seats,  
and exalted them of low degree.  
He hath filled the hungry with  
good things  
and the rich he hath sent empty away.  
(Well, in William Morgan's words,  
more starkly.)  
And then I learned  
that this wasn't about people, and

## Questions

**Global:** This material was being prepared as violence once more raged in Jerusalem and Gaza. How can the worldwide Christian community best support those Christians who share this contested place to be light in its darkness, transformers of fear, agents of peace?

**Local:** How might our local churches become Bethlehems – places where Christ can be born, welcomed and honoured?

**Personal:** When have you recognised the life of God growing in people and places to which you have previously paid little attention?

sustenance, and things, and capital,  
and nowt,  
that they were just symbols, spiritual  
things, nice.  
Is God that thick?

## Go and do

(see [www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Global:** Visit [Amos Trust](#) to find out more about how to create peace with justice in the Middle East.

**Local:** Plan as churches together to pray for peace in the middle east on the 24th of every month. You can use [resources](#) from Christian Aid to aid your prayers.

**Personal:** Bring the fears that keep you in division from other traditions before the Good Shepherd in prayer. Meditate on the words of the Good Shepherd - 'do not be afraid, little flock.'

# DIWRNOD 5

“Dyma’r seren a welsent ar ei chyfodiad yn mynd  
o’u blaen.”

(Mathew 2:9)

*Ein tywys gan yr Un Duw*

## *Darlleniadau*

Salm 121

Codaf fy llygaid tua’r mynyddoedd; o  
ble y daw cymorth i mi?

Mathew 2:7-10

Dyma’r seren a welsent ar ei chyfodiad  
yn mynd o’u blaen.

## *Myfyrdod*

Dro ar ôl tro, mae’r Ysgrythurau’n dweud wrthym am y ffordd mae Duw yn cerdded gyda ni. Efallai na fydd y llwybr bob amser yn syth: weithiau cawn ein harwain i gerdded yr un ffordd yn ôl, weithiau i ddychwelyd ar hyd llwybr gwahanol. Ond yn ein holl deithiau drwy fywyd, gallwn fod yn hyderus y bydd Duw, nad yw’n ‘cysgu nac yn huno’, gyda ni pan fyddwn yn llithro neu’n cwmpo.

Hyd yn oed yn y tywyllwch mwyaf, mae goleuni Duw gyda ni. Yna fe berffeithir ei bresenoldeb, yn llawnder yr amser, wrth i Dduw anfon ei unig Fab, Iesu Grist. Ef yw’r golau i arwain yr holl genhedloedd, gogoniant Duw yn y byd a ffynhonnell y goleuni a’r bywyd dwyfol.

Nid yw’r ffordd ymlaen tuag at undod a’n gilydd, at undod agosach â Christ, bob amser yn eglur. Yn ein hym-drechion diffuant i adeiladu undod drosom ein hunain mae’n hawdd iawn colli golwg ar y neges sylfaenol hon yn yr Ysgrythur, sef nad yw Duw yn cefnu ar ei bobl hyd yn oed yn eu methiannau a’u rhwygiadau. Dyma neges Duw o obaith i’r holl fyd. Fel mae hanes y Doethion yn ein hatgoffa, mae Duw’n arwain pobl o bob math, wrth oleuni’r seren, i’r fan lle gallant ddarganfod Crist, goleuni’r byd.

## *Gweddï*

Dduw ein Tywysydd,  
anfaonist y seren i arwain y Doethion  
at dy unig Fab.

Llenwa ni â'r hyder dy fod yn  
cyd-gerdded â ni.  
Agor ein llygaid i arweiniad dy  
Ysbryd, a nertha ein ffydd,  
fel y cyffeswn mai Iesu yw'r Arglwydd,  
a'i addoli fel y gwnaeth y Doethion  
ym Methlehem.  
Amen.

## Pennill o Emyn

Ymlaen af dros wastad a serth  
ar lwybrau ewyllys fy Nhad,  
a llusern ei air rydd im nerth  
i ddiffodd pob bygwth a brad;  
daw yntau ei hun ar y daith  
i'm cynnal o'i ras di-ben-draw,

## Cwestiynau

**Byd-eang:** Mae'r gymuned fyd-eang  
yn parhau i wynebu llawer o heriau.  
Sut ydym i geisio arweiniad Duw wrth  
ymateb i'r heriau hynny?

**Lleol:** Sut mae Duw yn tywys eich  
cymuned Gristnogol ar hyn o bryd?  
Ble mae galwad arnoch i weithredu?

**Personol:** Ystyriwch adeg pan fu i chi  
deimlo neu sylwi ar arweiniad Duw?  
Sut brofiad oedd hynny?

a hyd nes cyflawni fy ngwaith  
fe gydiaf, drwy ffydd, yn ei law.

*Siôn Aled*

## Ewch a Gwnewch

(gweler [www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Byd-eang:** Dechreuwch drafodaeth, neu parhewch drafodaeth, o fewn eich  
cymuned Gristnogol ynghylch y ffyrdd rydych yn ymateb i heriau cyfiawnder  
hinsawdd. Ymunwch fel eglwysi â gweddi a gweithredu byd-eang dros  
gyfiawnder hinsawdd

<https://www.prayandact4climate.org>

**Lleol:** Trefnwch wasanaeth Sul yr Hinsawdd rhwng eglwysi eich ardal. Ewch i  
[Sul yr Hinsawdd](#) am adnoddau a syniadau.

**Personol:** Chwiliwch am gymuned i ymuno â hi i'ch cynorthwyo gyda'ch  
gweithredu mewn ymateb i heriau byd-eang. Er enghraifft, os ydych yn hoffi  
gwaith crefft, gallech droi eich sgiliau'n weithredu mewn cysylltiad â'r  
[craftivist-collective.com](http://craftivist-collective.com).

# DAY 5

“Ahead of them, went the star that they  
had seen at its rising”

(Mt 2:9)

*Guided by the one God*

## *Readings*

Psalm 121

I lift up my eyes to the hills,  
from where will my help come?

Matthew 2:7-10

Ahead of them, went the star that they  
had seen at its rising

## *Reflection*

Again and again, the scriptures tell us how God walks with us. The path may not always be straight: sometimes we are led to retrace our steps, sometimes to return by a different route. But in all our journeying through life, we can be confident that God, who neither “sleeps nor slumbers”, is with us when we slip or fall.

Even in the greatest darkness, God’s light is with us. Most perfectly, in the fullness of time, God sends Jesus Christ, who is the guiding light for all nations, the glory of God in the world, the source of divine light and life.

The way ahead into unity with one another, into closer union with Christ, is not always clear. In our earnest attempts to build unity ourselves it

is all too easy to lose sight of this fundamental message of the scriptures: that God does not abandon his people even in their failures and divisiveness. This is God’s message of hope for the whole world. As the story of the Magi reminds us, God guides people of all kinds, by the light of the star, to where Christ, the light of the world, is to be found.

## *Prayer*

God our Guide,  
you sent the star to lead the Magi to  
your only begotten Son.  
Fill us with the confidence  
that you are walking with us.  
Open our eyes to your Spirit, and  
encourage us in our faith,

so that we may confess that  
Jesus is Lord,  
and worship him as the Magi  
did in Bethlehem.  
Amen

## Hymn Verse

Hope of my heart, strength of my soul,  
Guide Thou my footsteps and keep  
me whole;  
My grace and fortress, Thou wilt be,  
Oh, let Thy mighty hand ever lead me.

*Barney E Warren, 1893*

## Questions

**Global:** As a global community we continue to face many challenges. How do we seek God's guidance in our response to those challenges?

**Local:** How is God guiding your Christian community at this time? Where are you being called to act?

**Personal:** Reflect on a time when you have felt or seen God's guidance? What was that like?

## Go and do

(see [www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Global:** Start (or continue) a conversation around your Christian community about how you are responding to the challenges of climate justice. As churches take part in global prayer and action for climate justice:

<https://www.prayandact4climate.org>

**Local:** Plan a Climate Sunday service between the churches in your locality. Visit [climatesunday.org](http://climatesunday.org) for resources and inspiration.

**Personal:** Seek out a community to be part of to support you in your action responding to global challenges. For example if you like craft you could turn your skills into activism in community with the [craftivist-collective.com](http://craftivist-collective.com)

# DIWRNOD 6

“Daethant i'r tŷ a gweld y plentyn gyda Mair ei fam;  
sythiasant i lawr a'i addoli.”

(Mathew 2:11)

*Ynghyd mewn addoliad o gwmpas yr Un Arglwydd*

## *Darlleniadau*

Salm 84

Mor brydferth yw dy breswylfod,  
O Arglwydd y Lluoedd.

Mathew 28:16-20

A phan welsant ef addolasant ef.

## *Myfyrdod*

Pan gyrhaeddodd y Doethion o'u gwledydd pell i Fethlehem a gweld y plentyn gyda'i fam, eu hymateb oedd ei addoli. Ym mhresenoldeb y datguddiad hwn o Dduw yn ein plith, rhaid oedd iddynt edrych tua'r llawr a phlygu glin. Yn gyffelyb, pan welodd y disgyblion y Crist atgyfodedig ar y mynydd yng Ngalilea, eu hymateb oedd rhyfeddod a phryder, ac eto, ei addoli a wnaethant.

Ydyn ni'n gweld? Ydyn ni'n rhyfeddu?  
A ydym wirioneddol yn addoli? Sawl gwaith y buom yn ddall i bresenoldeb Duw? Sut allwn ni addoli mewn gwirionedd os nad ydym wir yn gweld gyntaf? Gan mor gul ein gwelediad,

yn rhy aml ni chanfyddwn ond dryswch ein hanghytundebau, gan anghofio bod gras achubol Duw ar gyfer pawb, a'n bod yn rhannu'r un Ysbryd sy'n ein tywys tuag at undod. Yn aml yn ein balchder rydym yn dilyn deddfau a thraddodiadau dynol, gan ddiystyru'r cariad y'n gelwir i'w rannu fel un bobl a gyfiawnhawyd drwy waed Crist.

Fel cymunedau sydd wedi eu bywiocáu gan yr Ysbryd Glân, fe'n gelwir i gyd-gerdded tuag at breseb Iesu, gan dalu gwrogaeth iddo fel un bobl. Mae Ysbryd trugaredd yn ein harwain tuag at ein gilydd a dim ond drwy ddilyn y tywysydd hwnnw y byddwn yn gallu 'addoli mewn ysbryd a gwirionedd'.



## Gweddi

Dduw tosturiol,  
yn dy drugaredd, symud y cen o'n  
llygaid  
ac arwain ni i edifarhau a'th addoli di.  
Yng nghanol ein gofid ac er gwaethaf  
dyfnder ein pechod,  
rho i ni'r gallu i'th garu di â'n holl  
galon.  
Wrth i ni gyd-deithio ag un galon ac  
un meddwl,  
bydded i ni dy ogoneddu di yng  
nghymdeithas yr Ysbryd,  
a thystiolaethu i bawb o'n cwmpas.  
Amen.

## Pennill o Emyn

Dyma gariad fel y moroedd,  
tosturiaethau fel y lli:  
T'wysog bywyd pur yn marw,

## Cwestiynau

**Byd-eang:** Beth ydych chi'n ei wneud  
o fewn eich patrwm addoli chithau i  
weddio dros yr Eglwys fyd-eang?

**Lleol:** Wrth addoli fel cymuned  
Gristnogol leol, beth yw'r rhwystrau  
sy'n eich wynebu ar lwybr undod  
llawnach a sut allech chi eu goresgyn?

**Personol:** A allwch chi gofio adeg  
pryd roeddech yn gallu 'addoli mewn  
ysbryd a gwirionedd?' Sut brofiad  
oedd hynny?

marw i brynu'n bywyd ni.  
Pwy all beidio â chofio amdano?  
Pwy all beidio â thraethu'i glod?  
Dyma gariad nad â'n angof  
tra bo nefoedd wen yn bod.

*Gwilym Hiraethog (1802-1883)*

## Ewch a Gwnewch

(gweler [www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Byd-eang:** Defnyddiwch y [cylch gweddi eciwmenaidd](#) i weddio gyda  
chymunedau yn yr Eglwys fyd-eang.

**Lleol:** Ffurfiwch bartneriaeth ag eglwysi yn eich ardal i gymryd rhan mewn  
deialog ysgrythurol er mwyn dysgu gyda chymuned eglwysig rywle arall yn y  
byd. Ewch i [Cyfiawn Air](#) i ddarganfod mwy.

**Personol:** Ewch ar-lein ac ymunwch i addoli mewn gwasanaeth o eglwys o  
draddodiad gwahanol. Myfyriwch ar y trysorau mae Duw wedi eu dangos i chi  
drwy'r profiad gwahanol hwn o gyd-addoli.

# DAY 6

“They saw the child with Mary his mother,  
and they knelt down and paid him homage”

(Mt 2:11)

*Gathered in worship around the One Lord*

## *Readings*

Psalm 84

How lovely is your dwelling place,  
O Lord of hosts!

Mt 28:16-20

When they saw him,  
they worshipped him

## *Reflection*

When the Magi from their far-away countries arrived at Bethlehem and saw the child with his mother, they worshipped him. In the presence of this revelation of God among us, eyes were cast down and knees bent. Similarly, when the disciples saw the risen Christ on the mountain in Galilee, they were amazed and troubled. Yet they worshipped him.

Do we see? Are we amazed? Are we truly worshipping? How many times do we remain blind to God's presence? How can we worship in truth if we do not really see first? In our narrow vision, too often we see only our

tangled disagreements, forgetting that God's saving grace is to all, and that we share in the one Spirit who draws us into unity. Often in our pride we follow human laws and traditions, disregarding the love we are called to share as one people justified by Christ's blood.

As communities enlivened by the Holy Spirit, we are called to walk together towards the Christ-Child, offering homage as one people. The Spirit of compassion guides us to each other and only by following this guide will we be able to “worship in spirit and truth”.

## Prayer

Compassionate God,  
in your mercy, remove the scales from  
our eyes  
and lead us to repent and to  
worship you.  
In the midst of our sorrow and despite  
the depth of our sin,  
give us the capacity to love you with all  
our hearts.  
As we journey together with one heart  
and mind,  
may we glorify you in the  
Spirit's fellowship,  
and witness to those around us.  
Amen.

## Hymn Verse

Finish, then, Thy new creation;  
Pure and spotless let us be;

## Questions

**Global:** What are you doing as part of your own pattern of worship to pray for the worldwide church?

**Local:** Within your worship as a local Christian community what are the barriers you face to greater unity and how might they be overcome?

**Personal:** Can you remember a time when you were able to worship “in spirit and in truth”? What was it like?

Let us see Thy great salvation  
Perfectly restored in Thee;  
Changed from glory into glory,  
Till in Heav'n we take our place,  
Till we cast our crowns before Thee,  
Lost in wonder, love, and praise.

*Charles Wesley, 1747*

## Go and do

(see [www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Global:** Use the [ecumenical prayer cycle](#) to pray with communities across the global church.

**Local:** Partner with churches in your area to participate in a biblical dialogue to learn with a church community across the world. Visit [Just Scripture](#) to find out more.

**Personal:** Find and join an online service from a church of a different tradition. Join in this act of worship and reflect on what riches God has shown you through this different experience of worship together.

# DIWRNOD 7

“Ac wedi agor eu trysorau offrymasant iddo  
anrhegion, aur a thus a myrr”

(Mathew 2:11)

*Yr ymchwil am undod*

## *Darlleniadau*

Hosea 6:1-6

Oherwydd ffyddlondeb a geisiaf,  
ac nid aberth.

Mathew 6. 19-21

Oherwydd lle mae dy drysor, yno hefyd  
y bydd dy galon.

## *Myfyrdod*

Mae'r proffwyd Hosea'n adnabyddus am ei gri am gyfiawnder a chariad uwchlaw defodau a rheolau crefyddol. Fe'n gelwir ninnau i wneud trysor o'n gweithredoedd cariadus a'n gwaith dros gyfiawnder ac i gyflwyno hynny fel ein hoffrwm gerbron y preseb. Gwyddom nad yw Duw yn dymuno cael ein cyfoeth na'n poethoffrymau, ond yn hytrach bod ei rym yntau'n gweithio drwy ein tlodi: 'Arian ac aur nid oes gennyf...'. Mae'r Arglwydd yn deisyfu'n hytrach ein calonnau cariadus, yn llawn trugaredd, yn wir edifeiriol ac yn eiddgar am newid.

Paratown felly galonnau sy'n llawn cariad yn rhodd. Mae penlinio mewn addoliad yn gofyn am galonnau sy'n edifar am y pechod sy'n ein gwahanu, calonnau sy'n ufudd i'r Un a wasanaethwn. Mae'r ufudd-dod hwnnw'n adfywio, yn iacháu ac yn

cyfannu popeth sy'n doredig neu'n glwyfedig o'n mewn, o'n cwmpas ac yn ein plith fel Cristnogion.

Undod yw'r rhodd a gynigir i ni gan Grist. Rydym yn tyfu mewn cymundeb wrth i ni rannu'r grasusau a etifeddodd ein gwahanol draddodiadau, gan gydnabod mai ffynhonnell ein holl roddion yw'r Arglwydd.

## *Gweddï*

O Dduw,  
drwy dy broffwydi  
rwy't wedi ein galw i wneud yr hyn  
sy'n iawn,  
i garu tosturi,  
ac i rodio'n ostyngedig gyda thi.  
Yng Nghrist,  
rwy't wedi dangos i ni sut beth  
yw hynny.

Drwy dy Ysbryd Glân  
rwyf yn ein galluogi'n barhaus  
i glywed dy eiriau,  
i ddilyn esiampl Crist,  
ac i fyw fel ei ddisgyblion.  
Felly, wrth i ni ddyfod at y preseb,  
iachâ ein clwyfau,  
cyfanna ein rhaniadau  
a dal ni ynghyd yn dy gariad.  
Amen.

## Penillion o Emyn

Ofer y ceisier ei wên ag anrhegion,  
ofer â golud y ddaear yn hael:  
gwell ganddo gywir addoliad y galon,  
gwell gan yr Iesu yw gweddi y gwael.

Loywaf o'r sêr sydd yn britho'r  
ffurfafen,  
gwasgar ein t'wyllwch, a gwawried  
y dydd:  
seren y dwyrain, rhagflaenydd  
yr heulwen,  
dwg ni i'r fan lle mae'r baban ynghudd.

## Ewch a Gwnewch

(gweler [www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Byd-eang:** Treuliwch amser heddiw'n ymgyrchu dros gyfiawnder byd-eang. Ymwelwch â gwefannau [partner asiantaethau Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon](#) i gyfrannu tuag at eu gweithredu cyfredol dros gyfiawnder cymdeithasol.

**Lleol:** Darganfyddwch pa brosiectau yn eich ardal chi sydd angen mwy o gefnogaeth a gweithiwrch gyda'ch gilydd fel eglwysi i'w cynorthwyo.

**Personol:** Ystyriwch agwedd ar gyfiawnder cymdeithasol na fuoch yn ymwneud â hi o'r blaen a threuliwch amser yn darganfod mwy o wybodaeth ac yn gweithredu ar y mater.

## Cwestiynau

**Byd-eang:** Mae cyfiawnder hinsawdd yn cael ei gydnabod fel mynegiant o gyfiawnder cymdeithasol y gall eglwysi gydweithredu yn ei gylch ar raddfa fyd-eang. Pam mae hynny, yn eich tyb chi?

**Lleol:** Weithiau fe ddywedir bod Undod Cristnogol yn datblygu'n haws pan fydd eglwysi lleol yn gweithio gyda'i gilydd ar brosiect penodol, yn aml un sy'n cynnwys hybu cyfiawnder cymdeithasol. Sut ydych chi wedi gweld hynny'n digwydd yn eich ardal chi?

**Personol:** Pa mor bwysig ydych chi'n ystyried yr Eglwys fel man i addoli ac fel man i alw am gyfiawnder cymdeithasol ohoni?

*Gan Reginald Heber (1783-1826), cyfieithwyd gan William Williams (1806-1877), diweddarwyd gan J T Job (1867-1938).*

# DAY 7

“Then, opening their treasure chests, they offered him gifts of gold, frankincense, and myrrh”

(Mt 2:11)

## *The search for unity*

### *Readings*

Hosea 6:1-6                      For I desire steadfast love and not sacrifice  
Matthew 6. 19-21              For where your treasure is, there your  
heart will be also

### *Reflection*

The prophet Hosea is known for his cry for justice and love to override religious ritual and regulations. We are called to make a treasure of our expression of love and our work for justice and to let that be the offering that we place before the manger. We know that God does not want our riches or burnt offerings, but rather that God's power works through our poverty: "I have no silver or gold". The Lord desires our loving hearts, filled with mercy, truly penitent and desiring change.

Let us then prepare the gift of a heart full of love. Kneeling in worship requires hearts that are contrite for the sin that divides us and obedient to the One we serve. This obedience revives, heals and reconciles everything that is broken or wounded in us, around us,

and among us as Christians.

Unity is the gift offered to us by Christ. We grow in communion as we share the graces our different traditions have received, acknowledging that the source of all our gifts is the Lord.

### *Prayer*

God,  
through your prophets  
you have called us to do justice,  
to love mercy,  
and to walk humbly with you.  
In Christ,  
you have shown us what that  
looks like.  
Through your Holy Spirit  
you continually enable us  
to hear your words,

to follow Christ's example,  
and to live as his disciples.  
So, as we gather at the manger,  
heal our wounds,  
reconcile our divisions  
and hold us together in your love.  
Amen

## Hymn Verse

Vainly we offer each ample oblation;  
vainly with gifts would his  
favour secure;  
richer by far is the heart's adoration;  
dearer to God are the prayers of  
the poor.  
Brightest and best of the sons of  
the morning,  
dawn on our darkness, and lend us  
your aid;  
star of the east, the horizon adorning,  
guide where our infant Redeemer  
is laid.

*Reginald Heber 1783-1826*

## Questions

**Global:** Climate justice is being recognised as an expression of social justice with which churches can act together on a global scale. Why is this the case?

**Local:** Sometimes we talk of Christian Unity being advanced more easily when local churches work together on a specific project, often one involving an expression of social justice. How have you experienced this in your local area?

**Personal:** How do you consider the importance of church as a place for offering worship and as a place from which to call for social justice?

## Go and do

(see [www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Global:** Take time today to campaign for global justice. Visit the websites of [CTBI agency partners](#) to take part in their current campaign actions for social justice.

**Local:** Identify projects in your local area that need more support, and work together as churches to assist them.

**Personal:** Consider an issue of social justice that you've not been involved with previously and take time to find out more and take action.

# DIWRNOD 8

Aethant yn ôl i'w gwlad ar hyd ffordd arall

(Mathew 2:12)

*Tu hwnt i lwybrau cyfarwydd ein harwahanrwydd tuag  
at lwybrau newydd Duw*

## Darlleniadau

Salm 16

Mathew 11:25-30

Dangosi i mi lwybr bywyd.

Am iti guddio'r pethau hyn rhag y  
doethion a'r deallusion, a'u datguddio i  
rai bychain.

## Myfyrdod

Ni wyddom beth oedd ym meddwl y  
Doethion – a oedd yn arbenigwyr ym  
meysydd seryddiaeth a daearyddiaeth  
– pan gawsant eu rhybuddio i  
ddychwelyd ar hyd ffordd arall. Mae'n  
ddigon posibl eu bod yn ddryslyd  
iawn, ond dangosodd yr un goleuni  
a oedd wedi eu harwain hyd hynny  
iddynt fod ffordd arall, posibilrwydd  
arall. Fe'u galwyd i newid cyfeiriad.

Rydym yn aml yn cael ein caethiwo  
gan ein ffyrdd cyfarwydd o wneud  
pethau ac o weld y byd. Pan fydd y  
llwybrau neu'r 'lonydd' hynny ar gau,  
rydym yn pendroni sut mae mynd yn  
ein blaenau a pharhau â'r daith.

Mae'n rhaid i ni ymddiried y bydd  
yr Un tragwyddol a roddodd i ni'r  
golau bob amser yn gallu canfod  
ffordd ymlaen pan fydd ein ffyrdd  
a'n llwybrau ninnau wedi'u rhwystro.

Mae dechrau o'r newydd bob amser yn  
bosibl pan fyddwn yn ewyllysgar ac yn  
agored i waith yr Ysbryd.

Fel eglwysi rydym yn edrych i'r  
gorffennol i oleu'n presennol, ac  
yn edrych i'r dyfodol i chwilio am  
llwybrau newydd fel y gallwn barhau i  
adlewyrchu goleuni'r Efengyl wrth i ni  
deithio ar hyd ffordd arall,  
gyda'n gilydd.

## Gweddi

Dduw graslon,  
pan na wyddom am ond un ffordd  
ac yn meddwl bod rhaid i ni  
ddychwelyd at honno,  
pan ydym yn meddwl bod rhwystrau  
ar bob ffordd  
ac yn suddo i anobaith,  
byddwn bob amser yn dy ganfod  
di yno,  
yn creu llwybr newydd ac annisgwyl  
o'n blaenau.  
Er chwilio drwy'n mapiau heb



ganfod unrhyw ffordd ymlaen,  
serch hynny byddwn bob amser yn dy  
ganfod di,  
a byddi dithau'n ein tywys ar hyd  
llwybr rhagorach fyth.  
Ymddiriedwn y byddi bob tro'n ein  
harwain yn ôl atat ti  
ac ymlaen mewn undod ynghyd.  
Amen.

## Ymateb Myfyriol

A ninnau'n teithio ar lwybrau  
cyfochrog  
neu'n aml i gyfeiriadau gwahanol  
mae 'ffordd arall' yn ein galw  
i ddod yn gyd-bererinion  
- Pobl y Ffordd.  
Dilyn yr un cwmpawd a'r un mapiau  
gan ganfod y ffordd a chynllunio'r  
daith gyda'n gilydd,  
ein sachau heb ein llethu  
a'n hesgidiau'n crensiar y graean,

## Ewch a Gwnewch (gweler [www.ctb.org.uk/goanddo](http://www.ctb.org.uk/goanddo))

**Byd-eang:** Dysgwch ynghylch y modd y bu i gymunedau ledled y byd ymuno  
mewn pererindod ar gyfer cyfiawnder hinsawdd yn 2021. Cynlluniwch fel eglwysi  
ynghyd i barhau i deithio tuag at ddyfodol gwell ar gyfer y blaned ac ar gyfer pawb  
ohonom. Gallwch ddysgu mwy yn  
[christianaid.org.uk/campaigns](http://christianaid.org.uk/campaigns).

**Lleol:** Trefnwch bererindod leol rhwng yr eglwysi yn eich ardal. Er enghraifft,  
gallech gerdded hyd at bob un o'r adeiladau eglwysig neu ganfod y llwybr  
pererinion agosaf atoch.

**Personol:** Teithiwch ar hyd llwybrau cyfarwydd mewn ffordd wahanol,  
er enghraifft, cerddwch hanner mor gyflym ar eich teithiau heddiw – pa  
wahaniaethau ydych chi'n sylwi arnynt? Sut ydych chi'n gweld pethau'n wahanol?

## Cwestiynau

**Byd-eang:** Pa ffyrdd eraill o gyd-  
deithio gallem eu hystyried a fyddai'n  
ein harwain i ddyfodol gwell?

**Lleol:** Beth ydym yn ei gymryd  
yn ganiataol ynghylch patrwm ein  
gweithgaredd dyddiol? Pa fendithion  
allai rhywun o draddodiad arall eu  
profi o'r dull addoli yn eich eglwys  
chi? Beth dybiwch chi fyddai ymateb  
rhywun o draddodiad arall i'r addoliad  
yn eich eglwys?

**Personol:** Sut mae'n teimlo pan gaiff  
eich ffyrdd neu eich traddodiadau  
cyfarwydd eu herio?

wrth i ni ailddarganfod llwybrau'n  
hynafiaid,  
gan rodio'n ostyngedig gyda'n gilydd a  
chyda'n Duw.

# DAY 8

They left for their own country by another road”  
(Mt 2:12)

*Beyond the familiar routes of separation  
to God's new paths*

## Readings

Psalms 16

You show me the path of life

Matthew 11:25-30

Because you have hidden these things  
from the wise and the intelligent, and  
have revealed them to infants

## Reflection

We do not know what the wise men thought – they who were experts in astronomy and navigation – when they were warned to return by another road. They may well have been very confused, but the same light that illumined their journey showed them that there was another road, another possibility. They were called to change direction.

We often find ourselves bound by our familiar ways of doing things and of seeing the world. When these ways or ‘roads’ are closed, we wonder how to proceed and continue the journey. We have to trust that the everlasting One who gave us the light, can always find a way forward when our ways

and paths are blocked. A fresh start is always possible when we are willing and open to the work of the Spirit.

As churches we look to the past and find illumination, and we look to the future in search of new ways so that we can continue to shine the light of the Gospel as we journey by another way, together.

## Prayer

Gracious God,  
when we only know one way  
and we think we must return to it,  
when we think that all roads  
are blocked,  
and we fall into despair,  
we always find you there,

creating a new unexpected path  
before us.  
If we search our maps and find  
no route,  
nonetheless we always find you,  
who lead us by a yet more  
excellent way,  
trusting that you will always lead us  
back to you  
and forward in unity together. Amen.

## *Meditative Response*

Journeying on parallel paths  
or often in opposite directions  
We are called by 'another way'  
to become pilgrim companions  
the people of The Way  
Compasses and maps orientated  
route finding and navigating together  
our backpacks not burdensome

## *Go and do*

(see [www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Global:** Find out how communities from all over the world joined in pilgrimage for climate justice in 2021. Plan as churches together to continue the journey to a better future for the planet and for us all. Find out more at:

[christianaid.org.uk/campaigns](http://christianaid.org.uk/campaigns).

**Local:** Organise a local pilgrimage between the churches in your area, for example, you could walk to each of the church buildings or find your nearest pilgrim route.

**Personal:** Journey familiar routes by another way, for example walk 50% more slowly on your errands today, what do you notice? How do you see things differently?

## *Questions*


**Global:** What other ways of journeying together could we explore that would lead us into a better future?

**Local:** What do we take for granted about our daily rhythms? What blessing might someone of another tradition receive from the worship in your church? How might the worship of your church be perceived by someone of another tradition?

**Personal:** How does it feel when your familiar ways or traditions are challenged?

our boots crunching on,  
rediscovering ancient paths,  
walking humbly together with  
our God.

# Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2022



[ctbi.org.uk/weekofprayer](http://ctbi.org.uk/weekofprayer)  
[weekofprayer.org](http://weekofprayer.org)

Twitter: [#wpcu2022](https://twitter.com/wpcu2022)  
[#wpcuwall](https://twitter.com/wpcuwall)

## Cyhoeddwyd gan

Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon

Interchurch House  
35 Lower Marsh  
Llundain SE1 7RL  
[info@ctbi.org.uk](mailto:info@ctbi.org.uk),  
Ffôn: 0203 794 2288

Elusen gofrestredig rhif 1113299.  
Cwmni cyfyngedig trwy warant,  
rhif cofrestru 5661787.

## Published by

Churches Together in Britain and Ireland

Interchurch House  
35 Lower Marsh  
London SE1 7RL  
[info@ctbi.org.uk](mailto:info@ctbi.org.uk),  
Tel: 0203 794 2288

Registered charity no. 1113299.  
Company limited by guarantee,  
registered no. 5661787.